



Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 17EG HYDREF, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 9 Hydref 2019)

# **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

## **AELODAETH (19)**

### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans  
Huw Gruffydd Wyn Jones  
W. Gareth Roberts

Aled Wyn Jones  
Berwyn Parry Jones  
Paul John Rowlinson

Charles Wyn Jones  
Peredur Jenkins  
Gethin Glyn Williams

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes  
Dewi Wyn Roberts  
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes  
John Pughe Roberts

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Alwyn Gruffydd

### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd  
Sion W. Jones

### **Aelod Lleyg (1)**

Mrs Sharon Warnes

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf ac 13 Medi, 2019, fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/4/2019 - 4/10/2019

11 - 35

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio (ynghlwm).

## 6. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

36 - 41

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio (ynghlwm).

## 7. ASESAD ALLANOL O ARCHWILIO MEWNOL

42 - 49

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio (ynghlwm).

## 8. CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

50 - 71

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (ynghlwm).

## 9. RHAGLEN GYFALAF 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

72 - 81

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (ynghlwm).

---

## PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 29/7/19

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Charles Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson a Gethin Glyn Williams.

**Aelod Lleyg:** Sharon Warnes

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid - ar gyfer eitemau 5 - 7 ar y rhaglen) a Edgar Owen (Aelod ex-officio).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer eitemau 6 a 7 ar y rhaglen), Delyth Wyn Jones-Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys - ar gyfer eitemau 6 a 7 ar y rhaglen), Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau) ac Ian Howse (Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte - ar gyfer eitemau 5 a 6 ar y rhaglen).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Ll. Evans, R. Medwyn Hughes, Berwyn Parry Jones a Huw G. Wyn Jones.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

### 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2019, fel rhai cywir.

### 4. DATGANIAD O GYFRIFON CYNGOR GWYNEDD 2018/19

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid. Tynnwyd sylw y cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar 13 Mehefin, a oedd yn cyflwyno sefyllfa diwedd flwyddyn ar ffurf alldro syml oedd yn crynhoi'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2018/19, tra bod y Datganiad o'r Cyfrifon ar ffurf safonol ar gyfer pwrpas allanol a llywodraethu.

Nodwyd bod yr Adran Gyllid wedi cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2018/19, a'u rhyddhau i Deloitte, archwilwyr allanol y Cyngor a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, cyn 31 Mai. Eglurwyd bod bwriad yn y cyfarfod hwn i gyflwyno'r cyfrifon terfynol gerbron y Pwyllgor yn dilyn archwiliad. Nodwyd yn anffodus derbyniwyd cadarnhad yn ddiweddar gan Deloitte, nad oedd modd iddynt gwblhau'r archwiliad a pharatoi adroddiad yr Archwilwyr Allanol ISA260 ar gyfer eu cyflwyno i'r cyfarfod. Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar 13 Medi er mwyn cyflwyno'r cyfrifon yn dilyn yr archwiliad er cymeradwyaeth y Pwyllgor.

Atgoffwyd yr aelodau, y cyflwynwyd cyfrifon terfynol yr Harbyrau gerbron y Pwyllgor ar 13 Mehefin. Nodwyd y derbyniwyd cadarnhad gan Deloitte nad oedd addasiadau yn dilyn archwiliad i gyfrifon yr Harbyrau, ac felly nid oedd gofyn i'w cyflwyno gerbron y Pwyllgor.

Manylodd yr Uwch Reolwr Cyllid ar gynnwys y Datganiad o Gyfrifon. Cyfeiriodd at 'Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar', gan nodi bod Deloitte, fel rhan o'r archwiliad, wedi codi mater yng nghyswllt gwerth meysydd parcio'r Cyngor a bod trafodaethau yn parhau rhwng y Gwasanaeth Eiddo a Deloitte o ran newid gwerth y meysydd parcio. Tynnodd sylw at yr argymhelliad i'r Pwyllgor dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2018/19.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac ymglyfarwyddo eu hunain gyda chynnwys y cyfrifon terfynol cyn eu derbyn yn derfynol yn y cyfarfod arbennig. Cyfeiriodd at ddyfarniad cyfreithiol achos McCloud a oedd yn golygu y byddai mwy o warchodaeth drosiannol ar gyfer aelodau o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Nododd bod y Goruchaf Lys wedi gwrthod cais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio yn erbyn y dyfarniad. Eglurodd bod rhai cyflogwyr yn gorfod gosod swm atebolrwydd wrth gefn, ond oherwydd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi gosod rhagdybiaeth chwyddiant tâl actiwaraid yn unol â'r achos, nid oedd rhaid i'r Cyngor addasu'r ffigyrau. Nododd y byddai geiriau ychwanegol o dan 'Nodyn 38 - Costau Pensiwn' i adlewyrchu hyn.

Nododd Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte ei werthfawrogiad am gytuno i gynnal cyfarfod arbennig. Eglurodd bod yr archwiliad yn mynd yn ei flaen yn dda a bod ychydig o ddyddiau o waith eto i'w gwblhau. Ymddiheurodd nad oedd yr Adroddiad ISA260 yn barod i'w gyflwyno i'r cyfarfod hwn a byddai gwersi yn cael ei dysgu o ran cwblhau'r gwaith. Nododd eu bod yn hapus gyda safon y cyfrifon a bod y mater o ran gwerth meysydd parcio'r Cyngor yn fater o farn ac fe ddoir i ddealltwriaeth.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod y gwaith o ran y cyfrifon terfynol wedi ei gwblhau gan y Cyngor gan nodi siom nad oedd Deloitte wedi cwblhau'r gwaith yn unol â'r amserlen. Datganodd ei werthfawrogiad o waith y Tîm Cyfrifeg.

Ategodd aelod o'r Pwyllgor sylwadau'r Aelod Cabinet Cyllid gan nodi ei werthfawrogiad o waith y tîm.

Tynnodd aelod sylw at yr argymhelliad gan nodi y byddai'n annoeth pleidleisio o blaid yr argymhelliad fel yr oedd yn sefyll. Holodd am y sefyllfa o ran gor-ddyled banc y Cyngor. Cyfeiriodd at erthygl yn y wasg a oedd yn adrodd ar ymateb Cyngorau Gogledd Cymru i gais rhyddid gwybodaeth yng nghyswllt buddsoddiadau arian pensiwn. Ymhelaethodd bod yr erthygl yn amlygu bod arian Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei fuddsoddi mewn cwmnïau a oedd yn cynhyrchu arfau. Nododd ei bod yn fater moesol ac y byddai ef yn bersonol yn osgoi buddsoddiadau o'r fath. Ychwanegodd ei fod yn ymddangos nad oedd y Cyngor yn gwneud digon o ymholiadau o ran buddsoddiadau a bod angen gweithredu i sicrhau nid oedd arian y Gronfa Bensiwn yn cael ei fuddsoddi mewn cwmnïau o'r fath.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Pennaeth Cyllid:

- O ran yr argymhelliad, efallai bod y geiriad yn anffodus ond yr hyn a argymhellwyd oedd derbyn a nodi'r Datganiad a oedd yn amodol ar archwiliad. Awgrymodd eiriad diwygiedig posib er ystyriaeth y Pwyllgor, sef "Derbyn y fersiwn cyn archwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor am 2018/19 a nodi y byddai'r fersiwn terfynol gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod arbennig ar 13 Medi 2019."
- Mai mater llif arian a amlygir gan y gor-ddyled banc ar y 31ain o fis Mawrth, lle'r oedd y Cyngor am dderbyn grantiau i unioni'r sefyllfa'n fuan ym mis Ebrill. Pe byddai'r Cyngor wedi benthyg arian, yna byddai costau ynghlwm, felly dyma oedd y dull mwyaf cost effeithiol i ariannu costau penodol.
- Bod y Cyngor wedi ymateb i'r wasg ar y mater buddsoddiadau pensiwn. Eglurodd bod buddsoddiadau pŵl yn cynnwys nifer o gwmnïau gyda rhai cwmnïau megis Airbus,

Siemens a Volkswagen hefo cyfran fach o'u gwaith yn ymwneud â'r sector amddiffyn. Pwysleisiodd nad oedd y Cyngor yn targedu buddsoddiadau o'r fath, ond gyda rheolwyr asedau'r Gronfa Bensiwn yn buddsoddi ar draws y farchnad stoc roedd yn anochel bod rhai cwmnïau gydag elfennau o'u gwaith ynghlwm â'r sector amddiffyn. Nododd bod y sawl gyflwynodd gais Rhyddid Gwybodaeth wedi arwain y wasg i ganfyddiad camarweiniol.

Holodd yr aelod ymhellach a oedd y Cyngor yn cymryd bob cam i atal buddsoddiadau o'r fath. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Pwyllgor Pensiynau, yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2018, wedi cymeradwyo Datganiad Strategaeth Buddsoddi a oedd yn cynnwys egwyddorion buddsoddi diwygiedig. Nododd y byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod yn y prynhawn yn ystyried dyrannu 12% o'r Gronfa Bensiwn i gronfa ecwiti goddefol carbon isel. Pwysleisiodd nad oedd yn bosib rhagdybio penderfyniad y Pwyllgor Pensiynau, ond bod symudiad clir tuag at fuddsoddi mwy cyfrifol. Nododd yr aelod ei fod yn croesawu'r symudiad at fuddsoddi yn fwy moesegol.

Nododd aelod, yn dilyn dyfarniad achos cyfreithiol McCloud a gwrthodiad apêl y Llywodraeth, bod y Llywodraeth yn ail-edrych ar sefyllfa cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gyda chostau o oddeutu £4 biliwn ynghlwm a'i fod yn debygol y byddai goblygiadau. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod adolygiad y Llywodraeth ar ddigwydd a bod holl gyflogwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ffodus nad oedd rhaid adnabod rhwymedigaeth wrth gefn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt taliadau i'r cyn Pennaeth Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, nododd y Pennaeth Cyllid bod pecyn diswyddo wedi ei gyflwyno i'r cyn Pennaeth fel rhan o adolygiad rheolaethol y Cyngor, roedd yn ei dro wedi cyflawni arbediad ariannol go sylweddol.

**PENDERFYNWYD derbyn y fersiwn cyn archwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor am 2018/19 a nodi y byddai'r fersiwn terfynol gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod arbennig ar 13 Medi 2019.**

## **5. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2018/19 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid datganiadau ariannol statudol y Gronfa Bensiwn am gymeradwyaeth y pwyllgor. Manylodd ar gynnwys y Datganiad o Gyfrifon. Cyfeiriodd at ddau o strategaethau allweddol y Gronfa, y datganiad strategaeth cyllido a'r datganiad strategaeth buddsoddi. Tynnodd sylw bod cynnydd o £143 miliwn yn asedau net y Gronfa dros y flwyddyn 2018-19 a oedd yn dod a gwerth y Gronfa i dros £2 biliwn.

Nododd bod costau rheoli buddsoddiadau yn uwch ym mlwyddyn ariannol 2018-19 oherwydd ei fod yn gyfnod gyda llawer o drosiant mewn cwmnïau rheoli asedau ecwiti a buddsoddiadau cysylltiedig, gyda chostau ynghlwm. Ymhelaethodd bod hyn yn bennaf yn dilyn trosglwyddo rhan fwyaf o'r asedau o reolwyr penodol y Gronfa, sef Fidelity a Veritas, i Bartneriaeth Pensiynau Cymru i fuddsoddi ar y cyd. Nododd yn y pendraw y rhagwelwyd y byddai'r ffioedd yn lleihau a'r dychweliadau os nad yn well yn fwy gwydn, oherwydd bod y risg buddsoddi wedi ei ledaenu.

Cyflwynodd Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte yr adroddiad archwiliad ISA 260. Nododd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- O ran Cydraddoli Isafsymiau Pensiwn Gwarantedig (GMPs) ynghlwm ac achos McCloud, nid oedd yn swm materol wrth ystyried y Gronfa yn ei gyfanrwydd. Felly yn foddol nid oedd angen diwygio unrhyw beth o ran y cyfrifon;

- Nid oedd unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd yn y datganiadau ariannol;
- Derbyniwyd sicrwydd gan archwilyr allanol Cyngor Sir Caerfyrddin, awdurdod lletya ar gyfer Cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac nid oedd unrhyw fater yn codi;
- Bod rhan fwyaf o'r argymhellion a godwyd ym mlynnyddoedd blaenorol wedi eu cyfarch;
- Bod y cyfrifon yn rhai o safon ardderchog.

Tynnodd aelod sylw bod y Cyngor fel cyflogwr yn cyfrannu £22.4 miliwn tuag at gost pensiynau. Nododd bod y Gronfa yn iach ac yn cael ei redeg yn llwyddiannus. Holodd a fyddai'r prisiad actiwaraid teir-blyneddol yn lleihau cyfraniadau'r Cyngor fel cyflogwr, gan leihau'r baich ar drethdalwyr. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn hyderus bod gwelliannau o ran y buddsoddiadau gyda thair blynedd bositif heb gwmp yn y farchnad. Ymhelaethodd y byddai'r sefyllfa o ran y prisiad actiwaraid teir-blyneddol yn cael ei gadarnhau ar ddiwrnod cyfarfod blyneddol y Gronfa Bensiwn ar 24 Hydref 2019. Nododd ni ellid rhagweld darganfyddiad yr actwari, ond ei fod yn obeithiol y byddai'r prisiad yn golygu cyfraniadau cyfartal neu is i'r Cyngor fel cyflogwr.

Nododd aelod bod yr incwm o £14 miliwn ar fuddsoddiadau o Gronfa a oedd werth dros £2 biliwn, sef 0.7%, ar y wyneb yn edrych yn isel o ystyried lefel y difidend. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid bod rhaid ystyried cynnydd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau yn ogystal â'r incwm o ddifidend. Ymhelaethodd y gellid buddsoddi mewn cerbydau fyddai'n rhoi difidend uchel, ond efallai ni fyddai gwerth yr ased ar y farchnad stoc yn cynyddu. Nododd bod yr incwm ynghyd â chynnydd yng ngwerth y buddsoddiadau yn golygu cynnydd o £123 miliwn a oedd oddeutu 7% o werth y Gronfa, a oedd ddigon teg ar gyfer y flwyddyn.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach gan yr aelod, nododd y Pennaeth Cyllid ni roddir cyfarwyddiadau i'r rheolwyr asedau o ran yr union fuddsoddiadau ond fe edrychir i gynnal gwerth y Gronfa yn hytrach na derbyn incwm mewn difidend er mwyn ail-fuddsoddi. Eglurodd bod buddsoddi yn y modd yma yn cyd-fynd â'r cynllun busnes hirdymor gyda gwerth y buddsoddiadau yn cynyddu dros amser.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (i) cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2018/19 (ôl-archwiliad) Cronfa Bensiwn Gwynedd;
- (ii) derbyn adroddiad archwiliad 'ISA260' Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- (iii) awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ynghylch cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a'i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## **6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2018/19**

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi yr adroddiad ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2018/19, yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno. Nodwyd bod gweithgaredd benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, a derbyniwyd £330,614 o log ar fuddsoddiadau a oedd yn uwch na'r £130,000 yn y gyllideb. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fanc roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw wedi methu â thalu.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor wedi manteisio ar ryddid newydd yn 2018/19 i fuddsoddi mewn pethau amgen megis cronfeydd ecwiti ac eiddo, roedd wedi gwella lefel dychweliadau.

Nodwyd bod y Rheolwr Buddsoddi yn cychwyn cyfnod ymddeoliad hyblyg ac fe fyddai'n ymddeol o wasanaeth y Cyngor erbyn Ionawr 2020. Dymunwyd yn dda iddi ar ei hymddeoliad a nodwyd gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth i'r Cyngor a'r cyn Gyngor Dosbarth Meirionnydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2019, ystyriwyd methiant i adrodd ar weithrediadau cytunedig ar adeg archwiliadau dilyniant, ar gyfer yr archwiliadau canlynol:

- a) Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal
- b) Manddaliadau
- c) Targedau Ailgylchu

Rhodddwyd ystyriaeth yn ogystal yng nghyfarfod y Gweithgor i archwiliadau a dderbyniodd lefel sicrwydd cyfyngedig, sef –

- a) Tanciau Diesel a Rheoli Diesel
- b) Trefniadau Diogelu - Sefydliadau
- c) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet perthnasol a swyddogion i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion oedd yn codi.

Nododd aelod yng nghyswllt archwiliad Manddaliadau o ran methiant i anfonebu tenantiaid yn y gorffennol a'r gwendidau a amlygwyd, ei fod yn gobeithio y byddai gwell trefn. Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod Manddaliadau wedi cael cryn sylw yn ddiweddar ac wedi ei gynnwys eto yng Nghynllun Archwilio Mewnol 2019-20.

Cafwyd trafodaeth yng nghyswllt yr archwiliad Targedau Ailgylchu. Nodwyd bod newidiadau i drefniadau casglu wedi dod i rym yn Ardal Dwyfor ar y 1af o Orffennaf a bod gwelliant o ran safon y gwaith casglu. Tynnwyd sylw bod newidiadau i'r dyddiau casglu wedi creu dryswch, yn enwedig i oedolion hŷn, a dylid cadw llygad ar y sefyllfa gan dderbyn diweddariad ar weithrediad.

Nododd aelod o ran yr archwiliad Tanciau Diesel a Rheoli Diesel, y daeth i'r amlwg nad oedd rheolwyr safle yn gyfrifol o ran cyflwr y tanciau yn y gorffennol, a'i fod yn gobeithio y byddai'r sefyllfa'n gwella gan y byddai gofyn ar reolwyr safle i archwilio'r tanciau yn fisol. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad dilyniant.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.25am

---

**CADEIRYDD**



---

## CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 13/9/19

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Angela Russell (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Alwyn Gruffydd, R Medwyn Hughes, Peredur Jenkins, Berwyn Parry Jones, Aled Wyn Jones, Charles Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, Paul Rowlinson a Gethin Glyn Williams.

**Aelod Lleyg:** Sharon Warnes

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid) a Edgar Owen (Aelod ex-officio).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid Siân Pugh (Cyfrifydd Grŵp), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau) a Clare Skivens (Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte)

- 1. YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Aled Ll. Evans, John Brynmor Hughes, Huw G. Wyn Jones a John Pughe Roberts
- 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**  
Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.
- 3. CYFRIFON TERFYNOL CYNGOR GWYNEDD 2018/19 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i'r Aelodau am eu hymdrech i fynychu'r cyfarfod arbennig. Er mai'r bwriad oedd cyflwyno adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym Mhwyllgor 29ain Gorffennaf 2019 gyda'r cyfrifon terfynol, bu i archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd fethu a rhyddhau eu hadroddiad o fewn yr amserlen. Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod y Datganiadau o Gyfrifon 2018/19 (cyn archwiliad) wedi eu cyflwyno a'u craffu'n briodol yn y cyfarfod ar y 29ain o Orffennaf.

Ynghyd a fersiwn terfynol (ôl archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon 2018/19, cyflwynwyd adroddiad 'ISA260' Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Clare Skivens Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte. Amlygwyd nad oedd gan yr archwilwyr allanol unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol y Cyngor. Cymeradwywyd y tîm cyfrifo am ansawdd a chyflwyniad y cyfrifon.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at un 'camddatganiad' sef ail brisiad meysydd parcio'r Cyngor. Yn dilyn ail brisiad gan y Cyngor yn ystod 2018-19, nodwyd gwahaniaeth rhwng y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor a rhai a awgrymir mewn canllawiau RICS perthnasol.

Roedd y Cyngor wedi addasu'r fersiwn derfynol o'r cyfrifon i adlewyrchu'r canllawiau ar gyfer datganiadau ariannol 2018/19, a chytuno i ailedrych ar ddulliau prasio ar y cyd gyda'r archwilwyr allanol i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag os yw 'gwahaniaethau prisiad' yn fater cyffredin, mynegodd y Pennaeth Cyllid bod archwilwyr allanol sawl Cyngor wedi edrych yn fanwl ar werth asedau eiddo eleni, a bod prisiwr mewnol Gwynedd wedi newid y sail prasio. O ganlyniad i'r gwahaniaethau, bu i'r archwilydd allanol benodi prisiwr arbenigol i drafod y sefyllfa unigryw yma. Ategwyd, fel ymateb i gwestiwn ategol am y fethodoleg a phwy sydd

yn penderfynu ar y fethodoleg, bod sawl methodoleg yn y maes ond byddai'r mater dan sylw yn cael ei adolygu ar gyfer cyfrifon blynnyddoedd dilynol.

Nododd y Pennaeth Cyllid ei ddiolch am yr adroddiad a gyflwynwyd gan Deloitte, a'u cydweithrediad arferol drwy'r archwiliad.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd 2018/19 (ôl-archwiliad);
- (ii) derbyn adroddiad archwiliad 'ISA260' Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- (iii) awdurdodi'r Pennaeth Cyllid ac Is-gadeirydd y Pwyllgor i ardystio'r "llythyr cynrychiolaeth" ynghylch cyfrifon y Cyngor a'i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:20am

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	17 HYDREF 2019
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 4 HYDREF 2019
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

---

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2019 hyd 4 Hydref 2019.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 4 Hydref 2019:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o Gynllun Gweithredol 2018/19	2
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	10

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 4 Hydref 2019, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Costau Teithio Hunanwasanaeth	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 1
Defnydd a Rheolaeth a Gyfryngau Cymdeithasol	Corfforaethol	Cyfathrebu	Digonol	Atodiad 2
Grant Datblygu Disgyblion	Addysg	Adnoddau	Digonol	Atodiad 3
Granti Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	Addysg	Adnoddau	Uchel	Atodiad 4
System Taliadau – Newid data Sefydlog	Cyllid	Ariannol	Digonol	Atodiad 5
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2018/19	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 6
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2018/19	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 7
Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2018/19	Cyllid	Cyfrifeg	Uchel	Atodiad 8
Grant Cefnogi Pobl	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cefnogi Pobl	Uchel	Atodiad 9
Cynllun Ail-leoli Ffoaduriaid Syria	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Digartrefedd a Thai Cefnogol	Digonol	Atodiad 10

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC (Cymru) 2014	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Cefnogi Teuluoedd	Uchel	Atodiad 11
Reoli Llifogydd	Ymgynghoriaeth Gwynedd	-	Uchel	Atodiad 12

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

<b>LEFEL SICRWYDD</b>	<b>UCHEL</b>	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	<b>CYFYNGEDIG</b>	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	<b>DIM SICRWYDD</b>	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

### 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 7 Hydref 2019:

- Goramser (*Corfforaethol*)
- 5 Ffordd o Weithio (*Corfforaethol*)
- Diwylliant a Moeseg (*Corfforaethol*)
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol (*Corfforaethol*)
- GwE – Gwerth am Arian (*Addysg*)
- Penodi a Chostau Athrawon Llanw – Uwchradd (*Addysg*)
- Ysgol Pendalar (*Addysg*)
- Ysgol Hafod Lon (*Addysg*)
- Cytundeuau Adran 106 (*Amgylchedd*)
- Uned Diogelwch y Ffyrdd (*Amgylchedd*)
- Grant AHNE (*Amgylchedd*)
- Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar ac Offer (*Cyllid*)
- Credyd Cynhwysol (*Cyllid*)
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)

- Cronfa'r Degwm (*Economi a Chymuned*)
- Iechyd a Diogelwch Harbyrau (*Economi a Chymuned*)
- Mesurau Diogelwch Parc Padarn (*Economi a Chymuned*)
- Costau Gwely a Brecwast (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Plas Pengwaith (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Plas Gwilym (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Bryn Blodau (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Llys Cadfan (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Cyfrifon Clybiau Ieuenctid (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)
- Taliadau i Ofalwyr Maeth (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)
- Hafan y Sêr (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)
- Cynnal a Chadw Meysydd Chwarae (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)

## **5. ARGYMHELLIAD**

- 5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2019 hyd at 4 Hydref 2019, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

## COSTAU TEITHIO - HUNANWASANAETH CORFFORAETHOL

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn newydd ble gall gweithwyr sydd â chyfrif TG hawlio unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth drwy system hunanwasanaeth. Fel rhan o'r drefn yma, cyflwynir manylion teithiau ar-lein ac nid oes angen awdurdodiad gan reolwr er mwyn i'r taliad gael ei brosesu, ond mae ganddynt y gallu i wrthod ceisiadau os ydynt o'r farn eu bod yn amhriodol neu'n anghywir. Bwriad y drefn newydd yw lleihau'r baich gweinyddol oedd ynghlwm â'r drefn flaenorol o gwblhau cais papur oedd angen awdurdodiad rheolwr llinell, ei ardystio gan ddaliwr y gyllideb ac yna ei fewnbynnu gan swyddogion gweinyddol i'r system i gynhyrchu'r taliad. Cynhaliwyd archwiliad ar y system ym mis Tachwedd 2017, ble adnabuwyd bod risg o geisiadau amhriodol neu anghywir yn cael eu prosesu.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod proses effeithlon ac effeithiol mewn lle ar gyfer hawlio costau teithio drwy'r system hunanwasanaeth, sy'n lleihau'r baich gweinyddol ac yn cadw risg o golled drwy gamgymeriad neu dwyll i lefelau priodol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu darganfod amllder cynnal gwiriadau gan reolwyr a gwirio sampl o geisiadau costau teithio a gyflwynwyd.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	<b>Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.</b>

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	1
<b>ISEL</b>	0

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae'r drefn o gyflwyno ceisiadau drwy hunanwasanaeth yn lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol. Mae'r cyfrifoldeb am gynnal gwiriadau yn parhau gyda'r rheolwyr, felly mae'r risg o gamgymeriadau neu dwyll costus yn ddibynnol ar ba mor drylwyr mae'r rheolwyr yn gwirio ceisiadau. Yn yr ystyr yma, nid yw'r drefn wedi newid wrth gymharu â threfniant ceisiadau costau teithio papur, ond bod y drefn newydd yn ddibynnol ar ymrwymiad y rheolwyr i fewngofnodi i'r system Hunanwasanaeth yn fisol i gynnal y gwiriadau.
- 5.2 Mae'r drefn yn tybio bod rheolwyr yn gwirio'r ceisiadau ac yn gwrthod rhai amhriodol. Cynhyrchiwyd adroddiad oedd yn dangos pa reolwyr sydd wedi a pha reolwyr sydd heb wirio ceisiadau dros gyfnod o 9 mis diweddar, a gwelwyd bod y rhan fwyaf o geisiadau ddim yn cael eu gwirio, er bod y system yn cynhyrchu e-byst i reolwyr sydd heb ymweld â'r system Hunanwasanaeth i wirio costau teithio gan nodi'r angen "*i chwi wirio costau teithio eich staff yn y system Hunan Wasanaeth cyn y dyddiad rhyddhau*" gan nodi'r dyddiad rhyddhau perthnasol. Yn ogystal, mae neges atgoffa yn ymddangos yn y system Hunanwasanaeth.
- 5.3 Derbyniwyd adroddiad o'r holl geisiadau costau teithio sydd wedi eu cyflwyno hyd yn hyn drwy'r system hunanwasanaeth, er mwyn gwirio pa mor effeithiol yw'r rheolaethau sydd mewn lle i atal ceisiadau amhriodol rhag cael eu prosesu. Yn ddamcaniaethol, dylai pob taith gael man dechrau a gorffen clir, a bod pwrpas y daith wedi ei gofnodi. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn amlwg ym mhob achos, ac felly nad oedd modd sicrhau bod y milltiroedd hawliwyd yn briodol. Ar y cyfan, mae'r nodiadau 'Pwrpas a lleoliad y daith' yn edrych yn ddigonol i reolwr allu gwneud penderfyniad os dylid gwrthod cais neu beidio. Mae hyn oherwydd buasai'r rheolwr yn ymwybodol o waith y swyddog ac yn deall amgylchiadau'r daith. Fodd bynnag, gwelwyd enghreifftiau o ddisgrifiadau'r daith yn cynnwys pwrpas ond ddim lleoliad, sydd ddim o gymorth i swyddogion allanol sydd efallai eisiau defnyddio'r system er mwyn adnabod patrymau gyrru, neu i wirio eu cywirdeb.
- 5.4 Yn dilyn sylwi ar amryw o daliadau dyblyg, gwelwyd fod gwendid yn y system oedd yn prosesu cais ddwywaith os oedd unigolyn yn clicio ar y botwm cyflwyno mwy nag unwaith ('double click'). Disgwylir i wiriadau rheolwr llinell adnabod hyn, ond ymddengys eu bod wedi eu methu yn yr achosion yma. Daethpwyd a hyn i sylw'r Gwasanaeth TG, ac addaswyd y system fel nad oes modd i hyn ddigwydd bellach.
- 5.5 Gwiriwyd y ceisiadau am gostau oedd yn ymddangos yn uchel neu yn amhriodol. Mae'r diffyg manylion ar y ceisiadau yn golygu bod angen ystyried y posibilrwydd bod rheswm digonol dros gyflwyno cais uwch na'r disgwyl, megis er mwyn osgoi traffig, neu rannu lifft â chyd-weithiwr o leoliad arall.
- 5.6 Gwelwyd felly bod risg o geisiadau amhriodol yn bodoli, ond nid yw'n sylweddol uwch wrth gymharu â'r trefniant o gyflwyno ceisiadau costau teithio papur gan fod y ddwy drefn yn ddibynnol ar onestrwydd y swyddog a pharodrwydd y rheolwr i'w gwirio a'u herio ble'n briodol.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi ymrwmo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Darparu rhestr i benaethiaid pob 3 mis yn nodi pa reolwyr o fewn eu hadran sydd ddim wedi gwirio costau teithio o gwbl yn ystod y cyfnod blaenorol.**



## DEFNYDD A RHEOLAETH O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL CORFFORAETHOL

### 1. Cefndir

1.1 Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffordd bwysig o gyfathrebu mewn cymdeithas erbyn heddiw ac yn newid y ffordd mae pobl yn rhwydweithio. Mae datblygiad cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth, derbyn a cheisio ymateb a barn trigolion. Mae'r mathau gwahanol o gyfryngau cymdeithasol megis 'Facebook', 'Twitter' ayb yn cynnig dull sydyn, rhad ac effeithiol o wneud hynny.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu edrych ar y polisi cyfryngau cymdeithasol, gwirio'r cynnwys sydd ar wefannau cymdeithasol y Cyngor, edrych ar unrhyw reolaethau cyfrifiadurol sydd mewn lle a sicrhau bod atebolrwydd ac arweiniad priodol o fewn y tîm cyfathrebu.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	0

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd mewn lle ar gyfer unrhyw gyfrif sydd yn cael ei greu yn enw Cyngor Gwynedd un ai yn gorfforaethol gan yr Uned Gyfathrebu neu gan Adran neu Wasanaeth unigol. Mae'r polisi hefyd yn cyfeirio at gyfrifon Cyngor Gwynedd sydd mewn partneriaeth â chyrff eraill, swyddogion sydd yn defnyddio gwefannau cymdeithasol fel rhan o'u gwaith a swyddogion sydd yn gwneud defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol lle y gallai gael effaith negyddol ar enw da'r Cyngor. Gwelwyd bod rheolaethau yn bodoli pe byddai'r Uned Gyfathrebu yn darganfod cyfrifon wedi'u sefydlu sydd heb dderbyn y polisi, ble byddent yn gofyn i weinyddwyr y cyfrifon lenwi'r ffurflen a'r atodiadau yn y polisi. Os oes gan y cyfrifon amcan/pwrpas addas yna mae'r cyfrif yn cael ei gadw.

- 5.2 Er mai'r Uned Gyfathrebu sy'n gyfrifol am gymeradwyo a phlisma pob cais a dderbynnir i sefydlu cyfrif neu gyfrifon cymdeithasol ar ran gwasanaeth neu gynllun penodol, yn unol â'r Polisi, wedi i gais gael ei gymeradwyo, gweinyddwr o fewn y gwasanaeth dan sylw sy'n gyfrifol am osod cynnwys ar y cyfrif, ei fonitro'n rheolaidd ac ymateb i unrhyw ymholiadau a dderbynnir. Yn yr un modd, rheolwr, Uwch-reolwr neu Bennaeth y gwasanaeth dan sylw sy'n gyfrifol am osod cynnwys ar y cyfrif, ei fonitro'n rheolaidd ac ymateb i unrhyw ymholiadau a dderbynnir. Gwelwyd bod diffyg rheolaeth yn bodoli ar gyfer gwirio bod pob cyfrif cymdeithasol gwasanaeth neu gynllun yn gyfredol, yn parhau i hybu gwasanaethau'r Cyngor ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd gan nad oes gwiriadau cyson yn digwydd.
- 5.3 Darganfuwyd bod gan y Tîm Cyfathrebu gyflwyniad hyfforddiant ar gyfer cyfryngau cymdeithasol a'i fod yn cael ei addasu ar gyfer gwahanol wasanaethau, yn ogystal â darparu hyfforddiant i gynghorwyr. Nid yw'r hyfforddiant yma ar gael i bob aelod o staff i atal cyfrifon gael eu sefydlu pan nad oes eu gwir angen. Fe wiriwyd cynnwys yr hyfforddiant a gwelwyd bod diffyg ymwybyddiaeth/hyfforddiant ar risg seiber i weinyddwyr all arwain at risg o ymosodiadau seiber a defnydd anniogel o gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.
- 5.4 Gwelwyd bod rheolaethau cyfrifiadurol da yn bodoli o ran y cyfrifon corfforaethol a weinyddir yn uniongyrchol gan yr Uned Gyfathrebu gan fod cyfrineiriau yn cael eu newid yn rheolaidd ac yn gyson, fel arfer yn fisol. Er hynny, nad oes rheolaethau cystal yn bodoli ar gyfer y cyfrifon eraill sydd wedi eu sefydlu ar ran gwasanaeth neu gynllun penodol gan nad oes unrhyw awgrymiadau o fewn y polisi y dylent newid cyfrineiriau yn rheolaidd a gosod rhai 'cryf' wrth sefydlu'r cyfrifon. Mae risg o'r diffyg rheolaethau cyfrifiadurol yma yn arwain at fynediad anawdurdodedig a chamdefnydd o gyfrifon y Cyngor.
- 5.5 Fe wiriwyd y cynnwys ar gyfer sampl o 10 cyfrif ('Facebook', 'Twitter' ac 'Instagram') er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cydymffurfio â'r hyn sydd wedi ei nodi o dan y polisi. Gwelwyd ei bod yn ofynnol i'r holl gyfrifon gael logo neu is-fandiau'r Cyngor ar eu gwefannau, y cynnwys wedi ei gyhoeddi yn ddwyieithog, bod pob ymateb yn cael eu postio gan y Cyngor yn ymateb yn yr un iaith â'r ymholiad a hynny yn amserol, a bod dim manylion cyswllt na ffotograffau o ddefnyddwyr gwasanaeth/staff heb ganiatâd. Gwelwyd bod y cyfrifon yn unol â'r polisi ar y cyfan, ar wahân i rai anghysondebau megis cyfrifon heb arddangos logo neu is-fandiau Cyngor Gwynedd ar eu gwefannau cymdeithasol. Nododd y Rheolwr Cyfathrebu bod angen i'r Tîm Cyfathrebu adolygu'r cymal yma o'r polisi.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol fydd yn lliniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cynnal gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob cyfrif cymdeithasol yn gyfredol ac yn parhau i hybu gwasanaethau'r Cyngor.**
- **Ychwanegu gwybodaeth am ddiogelwch risg seiber o fewn yr hyfforddiant/polisi er mwyn i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o'r angen i weithredu rheolaethau cyfrineiriau a'r risg o ddefnyddio dyfeisiadau personol.**

## GRANT DATBLYGU DISGYBLION ADDYSG

### 1. Cefndir

- 1.1 Diben y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Bwriedir iddo oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial llawn.
- 1.2 Caiff y grant ei ddirprwyo i'r Ysgolion / lleoliadau blynyddoedd cynnar gan eithrio'r elfen 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a reolir yn rhanbarthol gan y Consortiwm Addysg Leol, sef GwE. Mae GwE hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant ac yn eu cefnogi i'r perwyl hynny. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Arweiniol y Grant ar ran Awdurdodau Gogledd Cymru.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cadarnhau cywirdeb y Dystysgrif Archwilio, sef datganiad o wariant yr Awdurdod ar gyfer grant 2018/19, a chadarnhad bod systemau a rheolaethau mewnol yn eu lle i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion priodol.
- 2.2 Gwnaed hyn drwy ddethol sampl o daliadau Cyngor Gwynedd a GwE ar ffurf anfonebau, siwrneli a chyflogau mewn perthynas â'r gwahanol elfennau o'r grant, gan sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Yn ogystal, cadarnhawyd bod y grant wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod trefniadau priodol ar gyfer monitro'r grant a hawlio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	<b>Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.</b>

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	0

## **5. Prif Ddarganfyddiadau**

- 5.1 Gwiriwyd trefniadau gweinyddu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2018/19 a gwelwyd eu bod yn briodol. Cysonwyd gwariant y grant o'r cyfriflyfr ariannol â'r hyn ddatganwyd ar y Dystysgrif Archwilio.
- 5.2 O sampl o wariant a ddetholwyd, gwelwyd eu bod yn cyd-fynd â'r gofynion ac ar y cyfan yn dilyn y canllawiau manylwyd gan Lywodraeth Cymru. Ymholwyd ymhellach ynglŷn â dau wariant a derbyniwyd eglurhad digonol i gyfiawnhau'r ddau.
- 5.3 Nodir yn y Llythyr Gwahoddiad Grant dyddiedig Ebrill 2018: *'Mae'n ofyniad statudol i bob ysgol yng Nghymru fod â chynllun datblygu ysgol ar waith. Er mwyn lleihau unrhyw faich biwrocraidd ar ysgolion sy'n gysylltiedig â'r GDD, rydym yn argymhell bod consortia yn cefnogi ysgolion i ddefnyddio eu cynllun fel cyfrwng i gynllunio eu defnydd o'r GDD lle bo'n briodol'*. Gwiriwyd sampl o 9 Cynllun Datblygu Ysgol. O'r rhai wiriwyd, roedd 3 heb nodi yn glir beth oedd y ffigwr yr oeddent yn ddisgwyl ei dderbyn o'r grant am y flwyddyn ac roedd 3 heb nodi yn glir eu cynlluniau hwy i wario'r arian.
- 5.4 Roedd yn ofynnol cwblhau 3 hawliad am y grant yn ystod y flwyddyn ariannol. Gwiriwyd y 3 hawliad a gwelwyd eu bod wedi eu cwblhau yn gywir a bod y swyddogion priodol wedi'u harwyddo. Roedd yr hawliad cyntaf a'r trydydd wedi eu harwyddo cyn y dyddiadau cau perthnasol felly gellir tybio bod y ceisiadau wedi cyrraedd Llywodraeth Cymru yn gywir a phrydlon. Ni arwyddodd y 2 swyddog yr ail hawliad tan 11 a 12 diwrnod ar ôl y dyddiad cau. Serch hyn, derbyniwyd yr arian hawliwyd.

## **6. Camau Gweithredu**

**Mae'r Uwch Gyfrifydd a Rheolwr Busnes a Chyllid GwE wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Ysgolion yn cynnwys cynlluniau am sut i wario dyraniadau'r GDD.
- Dychwelyd ffurflenni hawlio'r grant yn brydlon ac yn unol â'r amserlen.

## GRANT RHANBARTHOL CONSORTIA GWELLA YSGOLION ADDYSG

### 1. Cefndir

1.1 Ar 1af Ebrill 2015, crëwyd y Grant Gwella Addysg (GGA) wedi i Lywodraeth Cymru gyfuno'r grantiau canlynol:

- Cyfnod Sylfaen
- Llwybrau Dysgu 14-19
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwysu
- Cynorthwyywyr Addysgu Lefel Uwch
- Ysgolion Arweiniol a Datblygol
- Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd
- Cyllid i Ysgolion Band 4 a 5

1.2 Bellach mae'r GGA wedi ei ymgorffori i grant newydd, sef, 'Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion – (GRCGY)'. Diben y grant yw gwella deilliannau addysgol ar gyfer pob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr.

1.3 Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau grant 2018-19 yn nodi'r disgwiliad bod isafswm o 80% o gyfanswm y GGA yn cael ei ddatganoli'n uniongyrchol i'r ysgolion. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod arweiniol GRCGY a GwE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant ac yn cefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu GRCGY 2018-19, er mwyn lliniaru risgiau yn unol ag amodau a thelerau'r grant yn ogystal â chadarnhau bod sail i'r ffigyrau a gyflwynir ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant a dilyn trywydd y ffigyrau i'r cyfriflyfr i gadarnhau eu cywirdeb a'u priodoldeb.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod sail gadarn i'r ffigyrau a gofnodwyd ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant. Dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i gyfriflyfr ariannol y Cyngor, ac fe'u cafwyd yn gywir.

- 4.1.1 Ymddengys bod trefniadau da yn bodoli ar gyfer gweinyddu'r GRGGY. Gwelwyd bod y canran priodol o'r cyllid gros wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod y canran priodol o'r arian grant wedi ei ddargadw ar gyfer pwrpas gweinyddiaeth yn unol ag amodau a thelerau'r grant.
- 4.1.2 Gwelwyd bod y gwariant archwiliwyd yn rhesymol i amcanion y grant. Fodd bynnag gwelwyd mewn sawl achos nad oedd archebion yn cael eu defnyddio'n briodol gan Gyngor Gwynedd nag ychwaith GwE:
- nid oedd archeb yn cael ei ddefnyddio ym mhob achos,
  - dyddiad yr archeb ar ôl dyddiad yr anfoneb sydd yn awgrymu ei bod wedi ei hysgrifennu yn dilyn derbyn y nwyddau/gwasanaeth
  - achosion lle'r oedd y swyddog oedd wedi codi'r archeb hefyd wedi ardystio'r anfoneb i'w thalu.
- 4.1.3 Gwelwyd sawl achos gan Gyngor Gwynedd ac GwE lle'r oedd anfonebau wedi cymryd dros 30 diwrnod i'w talu.
- 4.1.4 Disgwylir bod dadansoddiad o gyfanswm dyraniad grant yr ysgolion yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau datblygu'r ysgolion. Archwiliwyd sampl o gynlluniau uwchradd a chynradd Gwynedd a gwelwyd bod hyn yn cael ei weithredu.

## SYSTEM TALIADAU – NEWID DATA SEFYDLOG CYLLID

### 1. Cefndir

1.1 Yn 2016/17, collodd busnesau ym Mhrydain dros £32m i dwyll mandad, sef ceisiadau twyllodrus gan unigolion sy'n honni eu bod yn cynrychioli sefydliad sy'n derbyn taliadau rheolaidd, i newid manylion banc o fewn prif system cyfrifo'r cwsmer. Mae'r ffigwr hwn wedi mwy na threblu i dros £99m yn 2018/19<sup>1</sup> yn ôl RSM (grŵp o bartneriaethau cyfyngedig a chwmnïau cyfrifeg ac ymgynghori). Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae'n hanfodol bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer newid data sefydlog o fewn y system ar gais y busnes yn gadarn a thrylwyr.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle i reoli data sefydlog cyflenwyr y Cyngor, gan liniaru'r risg o dwyll. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau mewnbynnu a newid data credydwyr ar system ariannol y Cyngor, a threfniadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o dwyll, gan gynnwys rheolaethau dros ddiogelu'r data.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	<b>Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.</b>

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	2
<b>ISEL</b>	0

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Archwiliwyd trefniadau'r Gwasanaeth Taliadau i ymdrin â data sefydlog cyflenwyr, a gwelwyd bod rheolaethau priodol mewn lle i liniaru'r risg o dwyll mandad.

5.2 Derbyniwyd copïau o'r taflenni a gwblheir gan staff y Gwasanaeth Taliadau pan fydd cais i newid manylion banc cyflenwr, sy'n cynnwys cofnod bod aelod o staff y Gwasanaeth Taliadau wedi gwirio dilysrwydd y cais i newid manylion gyda'r cyflenwr dan sylw.

<sup>1</sup> <https://economia.icaew.com/news/july-2019/mandate-fraud-losses-up-28pc> (Cyrchwyd ar 01/08/2019)

Derbyniwyd hefyd y taflenni anfonir i gyflenwyr i sefydlu cyfrif newydd. Gwelwyd bod y taflenni dan sylw yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ar gyfer eu swyddogaethau. Roedd rheolaethau mewn lle i sicrhau bod cywirdeb a dilysrwydd newidiadau i ddata sefydlog yn cael eu gwirio gan 2 swyddog o'r Gwasanaeth Taliadau yn ogystal â'r Uwch Swyddog Taliadau.

- 5.3 Mynegodd yr Uwch Swyddog Taliadau a gwelwyd tystiolaeth bod unrhyw gais twyllodrus yn cael ei rannu drwy e-bost gyda holl staff y Gwasanaeth Taliadau yn ogystal ag Archwilio Mewnol a'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol. Mae achosion o dwyll yn cael eu rhannu gyda rheolwyr cyllid Cynghorau eraill os ydynt o bosib yn berthnasol iddynt (e.e. rhannu gwybodaeth am gais twyllodrus sy'n ymddangos ei fod gan gwmni adeiladu sy'n gweithredu mewn mwy nac un sir).
- 5.4 Mae'r Gwasanaeth Taliadau yn derbyn nifer sylweddol o geisiadau i sefydlu neu newid data cyflenwyr mewn blwyddyn yn ogystal â'u cyfrifoldebau i sicrhau bod taliadau'r Cyngor yn cael eu gweinyddu'n gywir. Oherwydd hyn nid oedd llawer o'r ceisiadau a'r taflenni perthnasol cwblhawyd wedi eu ffeilio. Trafodwyd hyn gyda'r Uwch Swyddog Taliadau a mynegodd buasai system gyfrifiadurol addas yn gallu arbed llawer o amser i'r Gwasanaeth a sicrhau trefn ffeilio fwy cadarn.
- 5.6 Gwiriwyd manylion hyfforddiant pob aelod o staff y Gwasanaeth Taliadau. Er bod ymwybyddiaeth o dwyll mandad yn y Gwasanaeth, gwelwyd bod 3 aelod o staff heb gwblhau'r modiwl e-ddysgu Diogelu Data (2018) a 3 arall heb gwblhau unrhyw hyfforddiant diogelwch TG. Mynegodd yr Uwch Swyddog Taliadau bod amser yn brin ar y Gwasanaeth oherwydd diffyg adnoddau felly bod yn anodd i staff gael amser i gwblhau hyfforddiant.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Uwch Swyddog Taliadau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Rhannu anghenion y Gwasanaeth Taliadau gyda'r Gwasanaeth TG er mwyn darganfod os oes modd datblygu trefn o fewn iGwynedd i fod o gymorth gydag awdurdodi a ffeilio ceisiadau am newid data sefydlog.
- Sicrhau bod staff y Gwasanaeth Taliadau yn cwblhau e-ddysgu/hyfforddiant diogelwch TG a diogelu data perthnasol.



**DATGANIAD CYFRIFYDDU HARBYRAU  
CYLLID**

**1. Cefndir**

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb y cyfrifon a datganiad blynyddol 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn 2018/19, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

- 4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu 'Harbyrau' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.
- 4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau a ddetholwyd, gan gynnwys taliadau arian mân, wedi eu cefnogi gydag anfonebau neu dderbynebau priodol, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o drosglwyddiadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.
- 4.3 Ymwelwyd yn ddirybudd â Harbwr Porthmadog fel rhan o archwiliad cynlluniedig 2018/19 'Casglu Incwm - Morwrol a Pharciau Gwledig'. Oherwydd y defnydd cynyddol o beiriannau talu gyda cherdyn, nid oes cymaint o incwm ar ffurf arian parod yn cael ei gasglu bellach a dim ond trafodion cerdyn oedd wedi eu derbyn yn yr harbwr ar y diwrnod. Gwiriwyd y trefniadau bancio a gwelwyd eu bod yn briodol ar y cyfan.
- 4.4 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.
- 4.5 Cefnogir ffigwr asedau sefydlog ar y datganiadau cyfrifyddu gan gofrestr asedau trylwyr, sy'n cynnwys ychwanegiad o £20,000 yn ystod 2018/19. Mae'r gwariant cyfalaf yma wedi ei gynnwys yn briodol fel gwariant 'cyfanswm taliadau eraill' ar y datganiad.

**DATGANIAD CYFRIFYDDU PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD  
CYLLID**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd yn gydbwyllgor a sefydlwyd yn unol ag Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cydbwyllgorau. Gan mai Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i'r Cydbwyllgor hwn, Cyngor Gwynedd sydd felly â'r cyfrifoldeb am gwblhau'r datganiad ariannol. Mae'r cyfrifon ar ffurf dychweliad blynyddol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb y cyfrifon ar ddatganiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2018/19, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd a Môn) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw a chynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.2 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau a ddetholwyd wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i'r cyfnod dan sylw, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o daliadau eraill a wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.3 Gweinyddir costau staff drwy Uned Cyflogau Cyngor Gwynedd ble chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. Cofnodir y costau yma yn erbyn 'costau staff' yn y datganiad. Sicrhwyd bod gan sampl o'r swyddogion yma gytundebau cyflogaeth briodol.

4.4 Mae 'taliadau eraill' yn cynnwys cludiant, cyflenwadau gwasanaethau eraill, costau datblygu'r Cynllun a chostau cefnogaeth ganolog.

4.5 Mae ad-daliad elfen TAW ar gyfer mis 12, cyfanswm o £33.33, wedi ei adlewyrchu yng ngholofn 'dyledwyr a balansau stoc' ar y datganiad cyfrifyddu 2018/19.

**CYFRIFON BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU  
CYLLID**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn grŵp o sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam. Y Bwrdd Uchelgais sy'n cyd-gordio cais "Cynllun Twf" ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n ymwneud â thargedu adnoddau sylweddol a phwerau newydd i'r rhanbarth, yn bennaf er mwyn cryfhau'r economi a chreu swyddi.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb y cyfrifon ar ddatganiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn 2018/19, yn ogystal â chadarnhau bod rheolaethau mewnol priodol mewn lle.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4.2 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi bod yn weithredol ers y 1<sup>af</sup> o Chwefror 2019. Mae cyfrifon priodol wedi'u cadw ac yn cwmpasu'r cyfnod rhwng y 1<sup>af</sup> o Chwefror a 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2019. Cynhelir cysoniadau banc fel rhan o weithgareddau ar draws y Cyngor.

4.3 Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd gwelwyd fod y sampl o daliadau a ddetholwyd wedi eu cefnogi gydag anfonebau perthnasol i'r cyfnod dan sylw, a bod treth ar werth wedi ei drin yn briodol. Roedd hefyd trywydd priodol i sampl o daliadau eraill â wnaethpwyd drwy drosglwyddiadau mewnol.

4.4 Cyflwynwyd cofrestr risg i'r Bwrdd ar y 12<sup>fed</sup> Ebrill 2019 sy'n canolbwyntio ar risgiau sy'n codi o'r rhaglen waith cychwynnol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar 1<sup>af</sup> Chwefror 2019. Adroddir yn chwarterol ar y risgiau i'r Bwrdd Uchelgais ac yn fisol i'r Grŵp Swyddogion.

4.5 Ar gyfer y cyfnod dan sylw, nid oedd y Bwrdd yn cyflogi gweithwyr yn uniongyrchol, ac felly ni chofnodir unrhyw gostau yn erbyn 'costau staff' yn y datganiad. Fodd bynnag, mae 'taliadau eraill' yn cynnwys 70% o gostau amser a chynhaliaeth Cyfarwyddwr y Cyngor am y cyfnod rhwng y 1<sup>af</sup> Chwefror a 31<sup>ain</sup> Mawrth 2019. Mae'r costau yma wedi eu cynnwys o dan y pennawd 'taliadau eraill' yn gywir a phriodol oherwydd bod y swyddog yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd ac nid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**GRANT CEFNOGI POBL  
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

- 1.1 Dyrannwyd dros £5 miliwn o grant i Gyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2018-19 fel rhan o gynllun Cefnogi Pobl. Mae'r cynllun yn comisiynu ac ariannu nifer o ddarparwyr i gynnig cymorth i unigolion bregus i gadw eu tenantiaeth ac osgoi digartrefedd, gyda'r nod o alluogi'r unigolion i fyw yn annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Gall y gwasanaeth gael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn neu mewn hostel, cartrefi gwarchodol, neu unrhyw dŷ lle ceir cefnogaeth. Mae'r cynllun yn rhoi cymorth i amrediad eang o bobl, megis pobl hŷn, pobl gyda phroblemau trais domestig, pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, pobl gyda phroblemau ieched meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau yn ogystal ag anabledd dysgu.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio grant Cefnogi Pobl ar gyfer 2018-19, drwy wirio'r costau a hawliwyd a'r nifer o achosion adroddwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant, ymarfer da a rheoliadau gweithdrefn ariannol y Cyngor.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

- 4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb tystysgrif archwilio grant Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio priodol i'r ffigyrau ac y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
- 4.2 Gwiriwyd y nifer o 'ddeilliannau' adroddwyd i Lywodraeth Cymru, ar gyfer y ddau gyfnod o fewn y flwyddyn. Bwriad hyn yw casglu gwybodaeth am y nifer a'r math o gefnogaeth a roddir. Mae'r darparwyr yn cyflwyno'r wybodaeth yma ar gyfer pob unigolyn (heblaw am y defnyddiwr gwasanaeth sydd yn derbyn gwasanaeth larwm yn unig) i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel corff arweiniol Rhanbarth Cefnogi Pobl Gogledd Cymru, sydd wedyn yn anfon adroddiad crynodeb o'r basdata i Gyngor Gwynedd i'w wirio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, derbynnir taenlen sy'n cynnwys holl fanylion pob unigolyn sy'n derbyn cymorth. Defnyddir y wybodaeth yma gan y Gwasanaeth er mwyn dethol sampl o ddeilliannau i wirio wrth gynnal ymweliadau monitro cyfnodol â'r darparwyr. Gwelwyd fod yr adroddiadau yma yn cysoni gyda'r hyn adroddir i Lywodraeth Cymru, a bod y Gwasanaeth yn eu dilysu wrth gynnal ymweliadau.

4.3 Mae amod 11 (a) (iii) o'r llythyr cynnig grant yn nodi bod angen cadw'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n gysylltiedig â'r cyllid hyd nes i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Cyngor ei fod yn iawn eu dinistrio. Fel rheol, caiff anfonebau eu dinistrio gan y Cyngor chwe mlynedd ar ôl y flwyddyn gyfredol ddod i ben. Ar gyfer anfonebau sydd angen cael eu cadw am gyfnod estynedig, oherwydd gofynion trywydd archwilio yn nhelerau'r grant er enghraifft, yna atodir slipiau codio gwariant ac awdurdodi TR252 pinc (yn hytrach na melyn). Gwelwyd fod y drefn o ddefnyddio slipiau pinc, fel y cytunwyd yn ystod archwiliad mewnol 'Grant Cefnogi Pobl', dyddiedig Hydref 2018, bellach mewn lle, ond bod rhai o daliadau wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn cyn mis Hydref, wedi defnyddio slipiau melyn, sy'n creu risg o'r anfonebau yn cael eu dinistrio cyn i'r Cyngor dderbyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, cedwir holl anfonebau'r Cyngor am gyfnodau estynedig, felly isel yw'r risg yma.

**CYNLLUN AIL-LEOLI FFOADURIAID SYRIA  
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Fe wirfoddolodd Cyngor Gwynedd i gymryd rhan yn y Rhaglen Ail-sefydlu Ffoaduriaid Syria sy'n cael ei reoli gan y Swyddfa Gartref. Yn 2016, bu i Gyngor Gwynedd groesawu'r ffoaduriaid cyntaf o Syria ble cafodd 12 ffoadur eu cartrefu yng ngogledd y sir ac yr Adran Tai yn gweithio efo landlordiaid preifat er mwyn trefnu llety addas ar eu cyfer. Erbyn hyn, mae 7 teulu eisoes wedi ymsefydlu yng Ngwynedd, ac mae disgwyliad i 40 ffoadur gael eu derbyn gan y Cyngor erbyn mis Medi 2019. Mae'r rhaglen yn cefnogi'r ffoaduriaid am bum mlynedd ble mae'r Cyngor yn gyfrifol am reoli'r gofynion teuluol ar gyfer addysg, iechyd, cyflogaeth ac integreiddio i'r gymdeithas.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer dyroddi arian ar gyfer y Cynllun Ail-leoli Ffoaduriaid Syria. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r trefniadau ariannol sydd wedi eu sefydlu gan gynnwys gwirio bod y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau ariannol yn unol â'r gofynion, bod swyddogion atebol wedi cael eu sefydlu, bod ceisiadau grant a chysoniadau wedi eu gwneud yn amserol ac yn gyflawn, bod gwariant yn erbyn y cynllun yn briodol a bod tystiolaeth i'w gefnogi.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>DIGONOL</b>	<b>Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.</b>

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
<b>UCHEL IAWN</b>	0
<b>UCHEL</b>	0
<b>CANOLIG</b>	1
<b>ISEL</b>	0

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae'r gwasanaeth yn dilyn y '*Cyfarwyddyd Cyllid i awdurdodau lleol i gynorthwyo Cynlluniau Adsefydlu'r Deyrnas Unedig*' gan y Swyddfa Gartref ar gyfer ariannu'r cynllun.

Mae'r cyfarwyddyd yn galluogi'r derbynnnydd i gefnogi ffoaduriaid yn ystod y 12 mis cyntaf wedi iddynt gyrraedd y DU ac yn ystod y 48 mis canlynol. Ar y diwrnod y bydd ffoadur yn cyrraedd y DU, bydd y derbynnnydd yn gymwys i hawlio 40% o gyfanswm y swm cymwysedig. Bydd y gweddill yn daladwy mewn dau daliad cyfartal ar ddiwedd y pedwerydd a'r wythfed mis wedi i'r ffoadur gyrraedd y DU. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, bydd yr awdurdod yn cymeradwyo un hawl yn unig i bob ffoadur fesul blwyddyn.

- 5.2 Fe wiriwyd sampl o 20 o wariant o'r cyfriflyfr o dan y codau VB70 4009/1201 a gwelwyd bod anfoneb neu dderbynneb ar gyfer pob un o'r sampl a bod y symiau wedi eu cofnodi'n gywir ar gyfer pob un. Gwelwyd bod yr holl anfonebau wedi cael eu cymeradwyo gan swyddog gwahanol i'r sawl sydd wedi creu'r archeb. Yn ogystal, fe wiriwyd os oedd y taliadau wedi eu dosbarthu yn ôl y gofynion. Gwelwyd bod y symiau cywir wedi eu rhoi i'r teuluoedd yn ôl oed y plant, costau cyflenwi ac amserlen a bod y taliadau wedi eu dosbarthu yn unol â'r gofynion.
- 5.3 Fe wiriwyd sampl o 20 o hawliadau a wnaed i'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod y swm a hawliwyd yn gywir ac yn gyflawn ar gyfer y teuluoedd a ail leolwyd yng Ngwynedd. Gwelwyd bod y swm a hawliwyd yn gywir, cyflawn ac yn cyd-fynd â gofynion Cyfarwyddyd Cyllid. Cymharwyd dyddiadau a gyflwynwyd yr hawliadau i'r Swyddfa Gartref gyda'r dyddiadau ar y cyfriflyfr ac ymddengys nad oedd unrhyw un o'r taliadau wedi eu derbyn yn hwyrach na 3 mis o'r dyddiad a hawliwyd yr arian.
- 5.4 Fel rhan o'r rhaglen, mae pob ffoadur yn derbyn £200 o gynhaliath ariannol wrth gyrraedd, ar gyfer bwyd a phethau ymolchi yn unig. Caiff pryniadau eraill megis tocynnau bws eu gwneud drwy gerdyn debyd. Ymddengys bod trefniadau priodol wedi eu cymryd wrth gymeradwyo taliadau. Adroddwyd mai Cydlynnydd Gwynedd Rhaglen Ailsefydlu Ffoaduriaid Syria (SRP1) yn unig sydd yn defnyddio'r cerdyn debyd ac yn dyrannu'r arian, gydag aelod arall o'r tîm/Rheolwr Prosiect yn defnyddio system '*Barclaycard Spend Management*' ar gyfer cymeradwyo'r taliadau. Bydd y Cydlynnydd yn ychwanegu derbynebau i'r system i gefnogi'r gwariant er mwyn galluogi'r Rheolwr Prosiect i'w cymeradwyo. Cadarnhawyd mai'r Cydlynnydd yw'r unig swyddog sydd wedi defnyddio'r cerdyn drwy wirio rhestr o daliadau o'r cyfriflyfr ariannol.
- 5.5 Darganfuwyd bod adroddiad monitro ariannol yn cael ei chreu gan yr Adran Gyllid yn fisol sy'n rhestru'r holl gyllidebau refeniw ac fe'i hanfonir at sylw'r Rheolwr Prosiect i'w hadolygu. Yn ogystal, ymddengys bod Cyfraniad Swyddfa Gartref yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad monitro ariannol. Mae'r gwasanaeth yn gofyn i'r Uned Gyllid Gofal baratoi tafluniad llif arian ar gyfer y grant/cyfraniad Swyddfa Gartref yn achlysurol er pwrpas hynny. Er hynny, ni dderbyniwyd cadarnhad gan y Gwasanaeth na'r Uned Gyllid bod cysoniadau o'r arian a dderbyniwyd yn dilyn yr hawliadau a wnaed i'r Swyddfa Gartref yn cael eu cynnal.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Bod y gwasanaeth i drafod gyda Cyllid drefniant ar gyfer adnabod a hysbysu pryd mae'r trafodion ariannol yn y cyfrif, yn ogystal a chynnal cysoniadau o'r arian a dderbyniwyd yn rheolaidd i sicrhau bod yr hawliadau a wnaed i'r Swyddfa Gartref wedi eu derbyn yn gyflawn, prydlon a chywir.**
- **Y Rheolwr Prosiect i ystyried cael mynediad i'r cyfriflyfr/system Ledger er mwyn gallu adnabod yr arian a haliwyd.**

**CYNLLUNIAU GOFAL A CHYMORTH (PLANT) O DAN RHAN 4 DGC 2014  
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**1. Cefndir**

- 1.1 Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yn Ebrill 2016. Nod y Ddeddf oedd trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau'r gwasanaeth yn briodol er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael eu diwallu yn unol â Rhan 4 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o ffeiliau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 a'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.</b>

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

- 4.1 Llunnir Cynllun Gofal a Chymorth ar gyfer unigolyn sydd ag anghenion cymwys. Mae asesiad (Rhan 3 - DGCLI - Asesu Anghenion Unigolyn) yn cael ei gynnal er mwyn adnabod os oes gan yr unigolyn anghenion cymwys ai peidio. Os yw'r anghenion sydd wedi eu hadnabod yn bodloni'r meini prawf cymhwysra yna maent yn gymwys i dderbyn Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 4 - DGCLI - Diwallu Anghenion).
- 4.2 Mae timau pwrpasol o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar gyfer cynnal yr asesiadau ac yna llunio Cynlluniau Gofal a Chymorth. Detholwyd sampl o staff o'r timau yma er mwyn cadarnhau bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer ymgymryd â'r swyddi. Gwelwyd bod pob Gweithiwr Cymdeithasol wedi cymhwyso yn briodol ac wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid yw aelodau o'r Tîm o Amgylch y Teulu sydd yn delio ag achosion ataliol wedi cymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol ond mae'n ymarfer da eu bod yn cwblhau modiwlau hyfforddi penodol. Gwiriwyd cymwysterau'r tîm a gwelwyd bod rhai ohonynt wedi cwblhau'r modiwlau yma.
- 4.3 Darperir hyfforddiant i'r gweithwyr gan swyddog allanol. Eto mae'n ymarfer da bod pob aelod o staff yn mynychu'r cyrsiau yma. Cynhelir cyrsiau ar egwyddorion sylfaenol y Ddeddf, cyflwyniad i'r dogfennau, yn ogystal mae cyrsiau penodol ar gyfer asesu plant a phlant sy'n derbyn gofal a lletya (looked after children) a.y.b.



Gwiriwyd y modiwl datblygu staff er mwyn darganfod os oedd y sampl a ddetholwyd wedi mynychu'r cyrsiau yma; yn benodol egwyddorion sylfaenol y Ddeddf a chyflwyniad i'r dogfennau. Gwelwyd nad oedd pob un ohonynt wedi derbyn yr hyfforddiant, ond nodwyd y byddai'r gweithwyr yma yn cael cyfle i fynychu'r hyfforddiant unwaith mae cwrs arall wedi ei drefnu.

- 4.4 Cadarnhawyd bod gan bob aelod o staff yn y sampl ddadleniad DGD cyfredol.
- 4.5 Gwiriwyd y Cynlluniau Gofal a Chymorth ar gyfer y sampl, a gwelwyd y defnyddir templed rhanbarthol Gogledd Cymru i'w cofnodi. Gwelwyd eu bod wedi rhoi sylw i anghenion cymwys / canlyniadau personol yr unigolyn a rhoddir sylw i'r camau sydd i'w cymryd i helpu'r unigolyn sicrhau ei ganlyniadau personol a/neu ddiwallu eu hanghenion cymwys. Yn ogystal, manylir ar sut y byddent yn monitro i ba raddau y mae'r canlyniadau personol wedi ei sicrhau lle'n berthnasol a chofnod o rolau a chyfrifoldebau'r personau perthnasol.
- 4.6 Mae dyddiad adolygu ar gyfer y Cynllun yn cael ei benderfynu a'i nodi cyn cwblhau'r Cynllun, ni ddylid fod dim hwyrach nag 6 mis. Gwiriwyd dyddiadau adolygu'r Cynlluniau yn y sampl yn erbyn y dyddiad cafodd adolygiad ei gwblhau. Gwelwyd o'r 6 achos yn y sampl, bod adolygiad wedi ei gwblhau ar gyfer pob un ohonynt. Nid oedd yr adolygiadau wedi eu cynnal ar y diwrnod a gofnodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth ym mhob achos, roedd hyn oherwydd amryw o resymau e.e. argaeledd gweithwyr proffesiynol neu'r unigolyn dan sylw.
- 4.7 Yn unol â Rhan 10 o'r DGCLI, 'Cwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eirioli', mae'n ofynnol i awdurdod lleol drefnu i wasanaethau eirioli gael eu rhoi ar gael i bobl sydd ag anghenion am ofal a chymorth. *"Mae "gwasanaethau eirioli" yn wasanaethau sy'n darparu cynhorthwy (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at ddibenion sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth."* Mae rhan bwrpasol yn nhempel Cynlluniau Gofal a Chymorth Rhanbarthol Gogledd Cymru er mwyn cofnodi a oedd gwasanaeth eiriolaeth wedi ei gynnig ai peidio, gwiriwyd y sampl a gwelwyd ei fod wedi ei gynnig yn briodol h.y. 3 unigolyn wedi cael y cynnig, 3 arall heb gan eu bod o dan 5 mlwydd oed.

## RHEOLI LLIFOGYDD YGC

### 1. Cefndir

1.1 Mae Fairbourne yn bentref i'r de o aber Afon Mawddach. Mae wedi ei adeiladu ar dir isel ar yr arfordir ac er bod rheolaethau amddiffynnol digonol yn erbyn llifogydd yn bresennol, golyga newid hinsawdd bydd y pentref mewn risg cynyddol o lifogydd, fel y nodwyd yn y 'West of Wales Shoreline Management Plan 2 (SMP2)' yn 2013. Yn dilyn hyn, sefydlwyd bwrdd prosiect gan Gyngor Gwynedd i ymchwilio'n bellach i'r effaith caiff newid hinsawdd ar y pentref a'r goblygiadau technegol, cyfreithiol a chymdeithasol.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod grantiau perthnasol i ymchwilio i, ac amddiffyn rhag llifogydd yn Fairbourne wedi eu defnyddio a'u gweinyddu'n briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o daliadau a phapurau gwaith perthnasol i'r grantiau, gan sicrhau bod gofynion y grant wedi eu cyflawni.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwiriwyd 6 grant oedd yn ymwneud â risg llifogydd Fairbourne: *Fairbourne Masterplan, Fairbourne Engagement & Inclusion (Moving Forward), Shoreline Management Plan Effects Research Project, Feasibility Study for Buy to Let Scheme, Building Community Resilience and Self-Sufficiency* ac *Fairbourne Monitoring Regime*. Gwelwyd bod y symiau hawliwyd a dderbyniwyd ar gyfer pob grant o fewn y cyfyngiadau a fanylir yn y llythyrau cynnig perthnasol.

4.2 Gwiriwyd sampl o 4 hawliad unigol ar gyfer 4 o'r 6 grant gwahanol. Roedd 85% o'r gwariant perthnasol yn cael ei ad-dalu gan y grant hyd at uchafswm penodedig. Gwelwyd bod 3 o'r 4 cais wedi gwario o fewn neu hyd at yr uchafswm penodedig. Roedd gwariant uwch na'r hyn gytunwyd ar gyfer cais 31/03/2017 grant *Shoreline Management Plan Effects Research Project* felly derbyniwyd 85% o'r uchafswm o'r grant ac ariannwyd y gweddill gan YGC.

4.3 Ar gyfer y sampl o 4 hawliad, gwiriwyd y dystiolaeth o briodoldeb y taliadau. Gwelwyd bod y gwariant yn addas ym mhob achos gan ei fod yn cyd-fynd â'r pwrpas manylwyd yn y llythyr cynnig. Gwelwyd bod anfoneb ac/neu dderbynneb ar gyfer pob trafodyn cynwysedig yn y sampl a ddetholwyd. Roedd llawer o'r gwaith wnaethpwyd yn fewnol o fewn yr adran YGC. Gwelwyd bod manylion yr oriau a dreuliwyd ar y prosiectau gwahanol ynghlwm ag anfonebau YGC. Cedwir y dogfennau perthnasol mewn ffolder bwrpasol gan yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol.

4.4 O'r sampl o 4 hawliad, gwelwyd bod ffurflenni hawliadau wedi eu llenwi yn gywir a phriodol a bod y ddogfennaeth a ofynnir amdano yn y llythyr cynnig wedi ei baratoi.

# Eitem 6

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	17 HYDREF 2019
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2019/20 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 4 Hydref 2019 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	22
Crewyd Papurau Gwaith	9
Gwaith Maes ar y gweill	14
Cwblhawyd Gwaith Maes	1
Adroddiad Drafft	4
Adroddiad Terfynol	10
<b>Cyfanswm</b>	<b>60</b>
Canslwyd	7

2.2 Mae'r gwasanaeth yn anelu i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2020. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 4 Hydref 2019 oedd **16.67%** - allan o'r **60** archwiliad unigol yng nghynllun 2019/20 roedd **10** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

### **3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

3.1 Mae'r archwiliadau canlynol wedi eu hychwanegu at y cynllun:

- Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2018/19 – 4 diwrnod
- Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd - 4 diwrnod
- Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – 4 diwrnod
- 5 Ffordd o Weithio (comisiynwyd gan y Grŵp Llywodraethu) – 30 diwrnod

Bu i Uwch Archwiliwr gynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gau cyfrifon 2018/19 a sefydlu cyllidebau 2019/20 – 'roedd cyfanswm y dyddiau hyn yn 52 diwrnod.

3.2 I adlewyrchu'r uchod yn y Cynllun Archwilio, penderfynwyd blaenoriaethu'r archwiliadau yn y cynllun ar sail risg a daethpwyd i'r casgliad i ganslo'r archwiliadau canlynol:

- Manddaliadau – 15 diwrnod
- Rheolaeth Categori – 15 diwrnod
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – 15 diwrnod
- Cynllun Llanbedr – 15 diwrnod
- Toiledau Cyhoeddus – 12 diwrnod
- Perthynas â Chwsmeriaid – 10 diwrnod
- Trefniadau Cyllidebu Ôl-16 – 10 diwrnod

### **4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2019/20, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.



# Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
<b>CORFFORAETHOL</b>						
1-CORFF-08/2020	Gwerth am Arian	20.00	0.00	<b>20.00</b>		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-09/2020/001	Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	20.00	0.00	<b>20.00</b>		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-09/2020/002	Merched mewn Arweinyddiaeth	5.00	0.00	<b>5.00</b>	<b>0.14</b>	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-09/2020/003	Modiwl Datblygu Staff	8.00	0.00	<b>8.00</b>		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-11/2020	Goramser	25.00	0.00	<b>25.00</b>	<b>5.65</b>	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-13/2020	Costau Teithio Hunan-wasanaeth	5.00	0.00	<b>5.00</b>	<b>4.96</b>	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-15/2020/001	5 Ffordd o Weithio	0.00	30.00	<b>30.00</b>	<b>6.82</b>	Crewyd Papurau Gwaith
1-CORFF-19/2020/001	Trefniadau Diogelu	15.00	0.00	<b>15.00</b>	<b>0.54</b>	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-19/2020/002	Trefniadau Diogelu - Sefydliadau	4.00	0.00	<b>4.00</b>	<b>0.20</b>	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2020/001	Diwylliant a Moeseg	15.00	0.00	<b>15.00</b>	<b>9.57</b>	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2020/002	Monitro Perthynas â Chwsmeriaid	10.00	0.00	<b>10.00</b>		Wedi ei ganslo
1-CPGV-02/2020	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	40.00	0.00	<b>40.00</b>	<b>3.35</b>	Gwaith Maes ar y gweill
2-ADN-CGC-DPA/2020cy	Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	6.00	0.00	<b>6.00</b>	<b>0.55</b>	Gwaith Maes ar y gweill
<b>Cyfathrebu</b>						
BD-PW-03/2020	Defnydd a Rheolaeth o Gyfryngau Cymdeithasol	8.00	0.00	<b>8.00</b>	<b>11.54</b>	Adroddiad Terfynol
<b>ADDYSG</b>						
<b>Adnoddau</b>						
4-DAT-X-ADD/2020GDD	Grant Datblygu Disgyblion	10.00	0.00	<b>10.00</b>	<b>10.53</b>	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2020GGA	Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	15.00	0.00	<b>15.00</b>	<b>15.31</b>	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2020oI16	Grant Addysg Ôl-16	3.00	0.00	<b>3.00</b>		Wedi ei gynllunio
4-DAT-X-ADD/2020TC	Trefniadau Cyllidebu Ôl-16	10.00	0.00	<b>10.00</b>		Wedi ei ganslo
<b>GwE</b>						
4-GWE/2020	GwE - Gwerth am Arian	20.00	0.00	<b>20.00</b>	<b>4.01</b>	Crewyd Papurau Gwaith
<b>Ysgolion</b>						
EADDA16/2020	Penodi a Chostau Athrawon Llanw - Uwchradd	25.00	0.00	<b>25.00</b>	<b>8.74</b>	Gwaith Maes ar y gweill
EADDA18/2020	Cyfrifon Ymddiriedolaeth	5.00	0.00	<b>5.00</b>		Wedi ei gynllunio

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
EADDA32/2020	Cronfeydd Ysgol	20.00	0.00	<b>20.00</b>		Wedi ei gynllunio
EADDA35/2020	Ysgolion Cyffredinol	5.00	0.00	<b>5.00</b>	<b>0.07</b>	Wedi ei gynllunio
EADDAY7002/2020	Ysgol Pendalar	12.00	0.00	<b>12.00</b>	<b>5.09</b>	Crewyd Papurau Gwaith
EADDAY7010/2020	Ysgol Hafod Lon	12.00	0.00	<b>12.00</b>	<b>4.43</b>	Crewyd Papurau Gwaith
<b>AMGYLCHEDD</b>						
<b>Cynllunio</b>						
DCYN-RD-01/2020	Cytundebau Adran 106	15.00	0.00	<b>15.00</b>	<b>15.84</b>	Adroddiad Drafft
<b>Tir ac Eiddo'r Cyngor</b>						
BA-EID-04/2020	Maddaliadau	15.00	0.00	<b>15.00</b>		Wedi ei ganslo
BA-EID-05/2020	Rheolaeth Categori	15.00	0.00	<b>15.00</b>	<b>2.20</b>	Wedi ei ganslo
<b>Trafnidiaeth a Gofal Stryd</b>						
DDAT-CC-01/2020	Trafnidiaeth - Costau Teithio Ôl-16	12.00	0.00	<b>12.00</b>		Wedi ei gynllunio
PPR-RS-03/2020	Uned Diogelwch y Ffyrdd	8.00	0.00	<b>8.00</b>	<b>3.55</b>	Crewyd Papurau Gwaith
<b>Uned Cefn Gwlad a Mynediad</b>						
4-AMGX-GRANT/2020	Grant AHNE	10.00	0.00	<b>10.00</b>	<b>9.58</b>	Adroddiad Drafft
<b>ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU</b>						
3-AMGACGC/2020	Achrediadau	15.00	0.00	<b>15.00</b>		Wedi ei gynllunio
<b>CYLLID</b>						
<b>Ar draws yr adran</b>						
AW-TG-12/2020	Systemau TG	30.00	-15.00	<b>15.00</b>		Wedi ei gynllunio
AW-TG-12/2020/001	Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar ac Offer	0.00	15.00	<b>15.00</b>	<b>10.62</b>	Crewyd Papurau Gwaith
<b>Ariannol</b>						
AE-TAL-01/2020	System Taliadau- Newid Data Sefydlog	10.00	0.00	<b>10.00</b>	<b>11.70</b>	Adroddiad Terfynol
<b>Cyfrifeg</b>						
AN-ACY-08/2020/001	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2018-19	0.00	4.00	<b>4.00</b>	<b>3.82</b>	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2020/002	Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2018-19	0.00	4.00	<b>4.00</b>	<b>4.07</b>	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-08/2020/003	Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2018-19	0.00	4.00	<b>4.00</b>	<b>3.77</b>	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-13/2020	Cysoni Banc	20.00	0.00	<b>20.00</b>		Wedi ei gynllunio
<b>Refeniw</b>						

<b>Côd yr Archwiliad</b>	<b>Enw'r Archwiliad</b>	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	<b>Cynllun Addasiedig</b>	<b>Gwir Ddyddiau</b>	Statws yr Archwiliad
AB-BD-01/2020cc	Credyd Cynhwysol	15.00	0.00	<b>15.00</b>	<b>10.70</b>	Gwaith Maes ar y gweill
AB-BD-01/2020kc	Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	12.00	0.00	<b>12.00</b>	<b>10.05</b>	Gwaith Maes ar y gweill
AC-TR-01/2020	Hunanwasanaeth Treth Cyngor	10.00	0.00	<b>10.00</b>		Wedi ei gynllunio
<b>CYNGHORAU TREF A CHYMUNED</b>						
CTC-01/2020	Cynghorau Tref a Chymuned	65.00	0.00	<b>65.00</b>	<b>98.36</b>	Wedi ei gynllunio
<b>ECONOMI A CHYMUNED</b>						
<b>Adfywio Cymunedol</b>						
EADDZ-01/2020	Cronfa'r Degwm	3.00	0.00	<b>3.00</b>	<b>0.54</b>	Gwaith Maes ar y gweill
<b>Ar draws yr adran</b>						
DDAT-CON-01/2020	Cynllun Llanbedr	15.00	0.00	<b>15.00</b>		Wedi ei ganslo
<b>Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau</b>						
EDIW-MU-01/2020/001	Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George	5.00	0.00	<b>5.00</b>	<b>0.91</b>	Wedi ei gynllunio
<b>Cefnogi Busnes</b>						
DDAT-AD-04/2020/001	ARFOR	8.00	0.00	<b>8.00</b>	<b>0.27</b>	Wedi ei gynllunio
DDAT-AD-04/2020/002	Cynllun STEM Gogledd	8.00	0.00	<b>8.00</b>		Wedi ei gynllunio
<b>Morwrol a Pharciau Gwledig</b>						
EHAMM-02/2020	Iechyd a Diogelwch Harbyrau	5.00	0.00	<b>5.00</b>	<b>1.16</b>	Gwaith Maes ar y gweill
EHAMZ-01/2020	Mesurau Diogelwch Parc Padarn	3.00	0.00	<b>3.00</b>	<b>0.62</b>	Crewyd Papurau Gwaith
<b>Strategaeth a Datblygu</b>						
DDAT-AD-05/2020	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	15.00	0.00	<b>15.00</b>		Wedi ei ganslo
<b>OEDOLION, IECHYD A LLESANT</b>						
<b>Cefnogi Pobl</b>						
GDAPR-SP01/2020	Grant Cefnogi Pobl	15.00	0.00	<b>15.00</b>	<b>14.95</b>	Adroddiad Terfynol
<b>Digartrefedd a Thai Cefnogol</b>						
T-TAI-D01/2020/001	Cynllun Ail-leoli Ffoaduriaid Syria	8.00	0.00	<b>8.00</b>	<b>11.54</b>	Adroddiad Terfynol
T-TAI-D01/2020/002	Costau Gwely a Brecwast	10.00	0.00	<b>10.00</b>	<b>17.50</b>	Adroddiad Drafft
<b>Preswyl a Dydd</b>						
5-GOF-CART1340/2020	Plas Pengwaith	12.00	0.00	<b>12.00</b>	<b>14.30</b>	Gwaith Maes ar y gweill
5-GOF-CART1344/2020	Plas Gwilym	12.00	0.00	<b>12.00</b>	<b>8.51</b>	Gwaith Maes ar y gweill



Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
5-GOF-CART1355/2020	Bryn Blodau	12.00	0.00	12.00	13.00	Adroddiad Drafft
5-GOF-CART1357/2020	Llys Cadfan	12.00	0.00	12.00	12.03	Gwaith Maes ar y gweill
GGWAS-D04/2020	Anabledd Dysgu - Canolfannau Dydd	25.00	0.00	25.00		Wedi ei gynllunio

## PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

### Plant a Theuluoedd

EADDI01/2020clwb	Cyfrifon Clybiau Ieuenctid	8.00	0.00	8.00	5.62	Cwblhawyd Gwaith Maes
GGWAS-P03/2020	Taliadau i Ofalwyr Maeth	12.00	0.00	12.00	15.05	Gwaith Maes ar y gweill
GGWAS-PLANT2/2020	Hafan y Sêr	12.00	0.00	12.00	4.96	Crewyd Papurau Gwaith

## PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

### Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol

PZ01/2020	Cynllun Parhad Gwasanaeth	12.00	0.00	12.00	0.58	Wedi ei gynllunio
-----------	---------------------------	-------	------	-------	------	-------------------

### Gwaith Bwrdeistrefol

M-GMG-C01/2020	Cynnal a Chadw Meysydd Chwarae	12.00	0.00	12.00	3.05	Crewyd Papurau Gwaith
----------------	--------------------------------	-------	------	-------	------	-----------------------

### Gwaith Priffyrdd

PPR-CON-01/2020	Rhaglen Waith - Pontydd	10.00	0.00	10.00	0.41	Wedi ei gynllunio
-----------------	-------------------------	-------	------	-------	------	-------------------

### Rheoli Gwastraff a Strydoedd

3-AMG-TOI/2020	Toiledau Cyhoeddus	12.00	0.00	12.00		Wedi ei ganslo
----------------	--------------------	-------	------	-------	--	----------------

## YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

### Ar draws yr adran

PYMG-CON/2020	Achrediadau	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
---------------	-------------	-------	------	-------	--	-------------------

# Eitem 7

PWYLLGOR	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD	<b>17 HYDREF 2019</b>
TEITL	<b>ASESIAD ALLANOL O WASANAETH ARCHWILIO MEWNOL I WIRIO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS (PSIAS)</b>
PWRPAS YR ADRODDIAD	<b>CYFLWYNO CANLYNIADAU YR ASESIAD ALLANOL</b>
AWDUR	<b>LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO</b>
GWEITHREDIAD	<b>DERBYN YR ADRODDIAD A SYLWEBU AR Y CYNNWYS</b>

---

## **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol CIPFA sy'n gysylltiedig, yn mynnu bod y Rheolwr Archwilio (y "prif weithredwr archwilio" yn nherminoleg y Safonau) yn datblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sy'n cwmpasu pob agwedd o weithgareddau archwilio mewnol.
- 1.2 Bwriad y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant yw galluogi gwerthusiad o gydymffurfiaeth gweithgareddau archwilio mewnol gyda'r Safonau ynghyd â gwerthusiad os yw'r archwilwyr mewnol yn gweithredu'r Côt Moeseg. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau archwilio mewnol ac yn adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant. Dylai'r Rheolwr Archwilio annog goruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ("y bwrdd" yn nherminoleg y Safonau) dros y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant.
- 1.3 Dylai'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant gynnwys asesiadau mewnol ac allanol.
- 1.4 Mae rhestr wirio wedi ei datblygu gan gyrff perthnasol sy'n gosod y safonau i fodloni'r gofynion a nodir yn Safonau (PSIAS) 1311 a 1312 ar gyfer hunanasesiadau cyfnodol a hunanasesiadau wedi eu dilysu'r allanol fel rhan o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. Mae'n ymgorffori gofynion y Safonau yn ogystal â Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol er mwyn rhoi sylw cynhwysfawr i'r ddwy ddogfen.
- 1.5 Rhaid cynnal yr asesiad allanol o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan adolygwr annibynnol, cymwys o du allan i'r sefydliad, un ai drwy asesiad allanol llawn neu drwy hunanasesiad wedi'i ddilysu gan adolygwr allanol.

## **2. ASESIAU MEWNOL**

- 2.1 Cynhaliwyd hunanasesiad yn 2017/18 a cyflwynwyd ganlyniadau'r hunanasesiad ynghyd â'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017.

## **3. ASESIAU ALLANOL**

- 3.1 Yn unol â'r safonau, rhaid i asesiadau allanol gael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan aseswr cymwysedig ac annibynnol neu gan dîm o aseswyr o'r tu allan i'r sefydliad. Mae'n rhaid i'r prif weithredwr archwilio drafod gyda'r bwrdd:
- Ffurf yr asesiadau ariannol
  - Cymwysterau ac annibyniaeth yr aseswr neu'r tîm asesu allanol gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.
- 3.2 Mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG) wedi cydweithio er mwyn mabwysiadu adolygiad gan gyfoedion ar gyfer asesiadau allanol, gyda'r hunanasesiadau'n cael eu dilysu gan yr aseswr allanol. Cymeradwywyd y trefniant hwn gan y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Refeniw a Risg.
- 3.3 Cynhaliwyd asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gâr.
- 3.4 Mae adroddiad prif weithredwr archwilio Sir Gâr wedi'i atodi fel Atodiad i'r adroddiad hwn. Mae'n cynnwys manylion am y gydymffurfiaeth â'r Safonau a rhydd sicrwydd bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn **"Cydydffurfio'n Gyffredinol"** â'r Safonau.

## **4. ARGYMHELLIAD**

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi ganlyniadau'r asesiad allanol, sylwebu ar y cynnwys a derbyn yr adroddiad.

Cyngor Sir Gâr

Carmarthenshire County Council

**Asesiad Allanol**

**Gwasanaeth Archwilio Mewnol**

**Cyngor Gwynedd**



**EICH CYNGOR arleinamdani**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

**Tu o'r COUNCIL doionline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

**CYNNWYS****TUDALEN**

1. Cyflwyniad	<b>2</b>
2. Pwrpas	<b>2</b>
3. Canlyniadau	<b>2</b>
4. Meysydd o Ddiffyg Cydymffurfiaeth neu Gydymffurfiaeth Rhannol / Meysydd Gwella Awgrymedig	<b>3</b>
5. Barn Gyffredinol	<b>5</b>

## **Aseiad Allanol o Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd**

### **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) i rym ar 1 Ebrill 2013 (diwygiwyd o'r 1 Ebrill 2017) ble cyflwynwyd gofyn am aseiad allanol o'r holl wasanaethau Archwilio Mewnol, a dylid ei gynnal o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan adolygwr cymwysedig ac annibynnol allanol i'r sefydliad.
- 1.2 Amlinellir yn y safon dau ddull posibl ar gyfer cynnal asesiadau allanol yn cynnwys naill ai aseiad allanol llawn neu hunanasesiad mewnol wedi ei ddilysu gan aseswr allanol.
- 1.3 Penderfynodd aelodau Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG) i fabwysiadu'r dull hunanasesiad gydag aelod arall o'r Grŵp yn ymgymryd â'r dilysiad.

### **2. Pwrpas**

- 2.1 Pwrpas yr aseiad allanol yw cynorthwyo i wella y modd caiff y gwasanaeth archwilio ei ddarparu i'r sefydliad. Mae'r aseiad wedi ei llunio i fod yn broses gefnogol sydd yn adnabod cyfleoedd i ddatblygu sydd yn y pen draw yn gymorth i wella gwerth swyddogaeth Archwilio i'r awdurdod.

### **3. Canlyniadau**

- 3.1 Cynhaliwyd dilysiad allanol o hunanasesiad a gwblhawyd gan Reolwr Archwilio Cyngor Gwynedd gan Bennaeth Refeniw a Chydymffurfio Ariannol Cyngor Sir Gâr.
- 3.2 Yn gryno, mae 334 o ofynion arfer gorau o fewn y Safonau. Cynhaliwyd adolygiad hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda'r safonau gan y Rheolwr Archwilio yn ystod 2017/18. Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu canlyniadau'r hunanasesiad a'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn 2017.
- 3.3 Yn dilyn dilysiad allanol o'r hunanasesiad, fe ystyrir bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio'n gyfredol â 307 o'r gofynion, 13 gyda chydymffurfiad rhannol ac nid oedd achos o ddiffyg-cydymffurfiaeth.
- 3.4 Mae crynodeb o ganlyniadau'r rhestr wirio yn Nhabl 1.

**Tabl 1 – Crynodeb o Gydymffurfiaeth â'r Safonau**

Safon		Cydymffurfiaeth				
		Ydi	Na	Rhannol	D/B	Cyfanswm
<b>1.</b>	<b>Diffiniad o Risg Archwilio</b>	3				3
<b>2.</b>	<b>Côd Moeseg</b>	13				13
<b>3.</b>	<b>Safonau Priodoledd</b>					
1000	Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb	21				21
1100	Annibyniaeth a Gwrthrychedd	27		1	2	30
1200	Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Dyledus	20		1		21
1300	Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	23		4	2	29
<b>4.</b>	<b>Safonau Perfformiad</b>					
2000	Rheoli'r Gweithgaredd Archwilio Mewnol	43		1	3	47
2100	Natur y Gwaith	30		1		31
2200	Cynllunio Ymgysylltu	55		1		56
2300	Perfformio'r Ymgysylltiad	22				22
2400	Cyfathrebu Canlyniadau	45		4	6	55
2500	Monitro Cynnydd	4				4
2600	Cyfathrebu Derbyn Risgiau	1			1	2
		<b>307</b>	<b>0</b>	<b>13</b>	<b>14</b>	<b>334</b>

3.5 Mae'r meysydd o gydymffurfiaeth rannol neu ddiffyg cydymffurfiaeth Safonau ynghyd â awgrymiadau ar gyfer gwella wedi eu manylu yn rhan 4.

#### **4. Meysydd o Gydymffurfiaeth Rhannol neu Ddiffyg Cydymffurfiaeth / Awgrymiadau ar gyfer Gwella**

##### **4.1 Safon 1100: Annibyniaeth a Gwrthrychedd**

4.1.1 Mae'r Safon yn awgrymu bod y prif weithredwr neu gyfatebol yn ymgymryd, cydlofnodi, yn cyfrannu adborth i adolygu neu werthuso perfformiad y Prif Archwiliwr. Yn gyfredol, caiff adborth ei ddarparu ar y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ei gyfanrwydd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, felly nid oes adborth ffurfiol o berfformiad y Prif Archwiliwr. Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun gwerthuso 360 gradd ar gyfer rheolwyr a fydd yn cyfarch y safon hwn.

## **4.2 Safon 1200: Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Dyledus**

4.2.1 Ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus, dylai'r Prif Archwiliwr o dro i dro asesu archwiliwyr unigol yn erbyn y sgiliau a'r cymwyseddau a bennwyd ymlaen llaw. Cydnabyddir bod diwylliant o "goetsio" o fewn y Tîm Archwilio Mewnol a bod materion yn cael eu trafod a'u datrys yn barhaus. Yn ychwanegol i'r broses anffurfiol, argymhellir cynnal adolygiad ffurfiol yn achlysurol.

## **4.3 Safon 1300: Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant**

4.3.1 Mae'r Safonau'n mynnu bod Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant (QAIP) yn cael ei datblygu a'i chynnal i alluogi asesu'r weithgaredd Archwilio Mewnol am gydymffurfiaeth yn erbyn y Safonau.

4.3.2 Mae gofyniad y sector gyhoeddus i Safon 1320: Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn mynegi "rhaid adrodd ar ganlyniadau y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella yn yr adroddiad blynyddol". Adroddwyd ar ganlyniadau yr hunanasesiad a gynhaliwyd yn 2017/18 ynghyd â'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2017.

4.3.4 Mae'r Safonau'n mynnu bod y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol. Dylai bod canlyniadau'r asesiad allanol yma yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant a'i gyflwyno i'r pwyllgor.

## **4.4 Safon 2000: Cyflynu: 2050**

4.4.1 Mae'r Safonau'n mynegi, "a yw'r Prif Archwiliwr yn cynnal ymarfer mapio sicrwydd fel rhan o adnabod a phenderfynu ar y dull o ddefnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd?"

4.4.2 Rhydd ystyriaeth i adroddiadau sicrwydd allanol wrth gynnal archwiliadau unigol ac wrth baratoi'r Cynllun Archwilio Blynyddol. Dylid ystyried ffurfioli'r broses yma a hefyd ystyried cynnwys ac adnabod ffynonellau eraill o sicrwydd.

## **4.5 Safon 2100: Natur y Gwaith / Safon 2400: Cyfathrebu Canlyniadau 2110: Llywodraethu / 2410: Meini Prawf Cyfathrebu**

4.5.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Safonau, mae'n ofynnol i'r weithgaredd Archwilio Mewnol asesu, cyfathrebu a gwneud argymhellion priodol ar gyfer gwella y broses llywodraethu. Nid yw Gwasanaeth Archwilio Mewnol Gwynedd yn gwneud argymhellion ond yn hytrach cynhyrchir gynllun gwella gweithredu cytunedig ar y cyd â'r cleient sydd yn galluogi gwell perchnogaeth o'r gweithrediadau.



#### 4.6 Safon 2200: Cynllunio Ymgysylltu 2220: Cwmpas yr Ymgysylltiad

4.6.1 Er mwyn cydymffurfio a'r safon ymgysylltu, mae'n ddisgwyliedig "ar gyfer ymgysylltiad ymgynghori, bod cwmpas yr ymgysylltiad yn ddigonol i ymdrin ag unrhyw amcanion y cytunwyd arnynt". Awgrymwyd gan y Tîm Archwilio mai mewn perthynas ag archwiliadau ymatebol nad oedd hyn bob amser yn bosibl. Derbynnir y gallai fod angen cynnal rhai adolygiadau ad-hoc fodd bynnag, dylid paratoi a chytuno ar gwmpas yr adolygiad ar y cychwyn, bydd hyn yn sicrhau ei bod yn amlwg i bob parti beth fydd cynnwys yr adolygiad.

### 5. Barn Gyffredinol

5.1 Mae'r Llawlyfr Asesu Ansawdd a gynhyrchwyd gan yr "Institute of Internal Auditors" yn awgrymu'r graddfeydd canlynol i ddynodi lefel cydymffurfiaeth â'r Safonau.

- **Cydymffurfio'n Gyffredinol** – sy'n golygu bod gan y weithgaredd mewnol siarter, polisiau a phrosesau y bernir eu bod yn cydymffurfio â'r safonau.
- **Cydymffurfio'n Rhannol** - sy'n golygu bod diffygion ymarferol wedi'i nodi ac y bernir i fod yn gwyro o'r Safonau ond nad oedd y diffygion hyn yn atal y weithgaredd archwilio mewnol rhag cyflawni ei gyfrifoldebau mewn modd derbyniol.
- **Ddim yn Cydymffurfio** – sy'n golygu y bernir bod y diffygion ymarferol mor sylweddol fel eu bod yn amharu'n ddifrifol neu'n atal y gweithgaredd archwilio mewnol rhag perfformio'n ddigonol yn yr holl feysydd neu feysydd sylweddol o'i gyfrifoldebau.

5.2 Mae'r farn gyffredinol yn dilyn dilysiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yw ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Safonau. Adnabuwyd rhai cyfleoedd am welliant pellach fel y dengys yn yr adroddiad hwn ond ni ystyrir unrhyw faterion o gydymffurfiaeth rhannol neu ddiffyg cydymffurfiaeth yn fethiant sylweddol i gwrdd â'r Safonau.

# Eitem 8

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>17 HYDREF 2019</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CYLLIDEB REFENIW 2019/20 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2019</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf</b>
<b>GWEITHREDIAD:</b>	<b>Derbyn y wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID</b>
<b>AELOD CABINET:</b>	<b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID</b>

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad Diwedd Awst 2019) i'r Cabinet ar 15 Hydref 2019.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

## **Atodiadau:**

Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad Diwedd Awst 2019 (Cabinet 15/10/2019)

## ADRODDIAD I'R CABINET

15 HYDREF 2019

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad Diwedd Awst 2019

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2019 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant eleni, gan bod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisioes wedi galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn cael gwell dealltwriaeth a rhaglen glir i ymateb, fel sydd yn digwydd yn maes gofal Plant.
- Gofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, ynghyd â'r Pennaeth Adran Plant a Theuluoedd, i fynd at wraidd gorwariant yr Adran a chymryd camau i ddod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth ac o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.
- Caniatáu yr Adran Amgylchedd i neilltuo (£220k) o danwariant yr adran yn dilyn adolygiad barnwrol diweddar o gynllun cyfalaf yn ymwneud â Ffordd fynedfa Llanbedr, o ganlyniad i resymau tu hwnt i reolaeth y Cyngor, gan ei roi mewn cronfa benodol i'r pwrpas.
- Ar gyllidebau Corfforaethol, trosglwyddo:
  - (£240k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - (£995k) ar gynnal a chadw i gronfa cynnal a chadw.
  - tanwariant net o (£1,632k) ar gyllidebau Corfforaethol i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i leddfu'r risg gorwariant adrannau'r Cyngor yn 2019/20.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2019/20, ac amlinellir grynhoed o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Gan mai adrodd ar sefyllfa hyd at ddiwedd Awst yw'r adroddiad yma, bydd yr adroddiad ddiwedd Tachwedd yn adlewyrchu'r strwythur newydd, sydd yn cynnwys yr Adran Tai ac Eiddo a ddaeth i rym o 1 Medi 2019.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

Mae arwyddion fod rhai trafferthion cyflawni arbedion yn cael eu hamlygu eleni, gan ein bod yn ceisio isafu'r ardrawiad ar drigolion Gwynedd drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n llawer anoddach na thorri gwasanaethau.

Yn amlwg mae trafferthion sylweddol yn rhai adrannau eleni:

### 2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Rhagolygon diweddaraf yn awgrymu dros £1.6 miliwn o orwariant, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu nifer o gynlluniau arbedion gwerth bron i filiwn. Cynnydd yn y niferoedd mewn lleoliadau preswyl a nyrsio Pobl Hŷn a Llety Cefnogol, gyda'r gorwariant gan y gwasanaeth Darparu yn parhau.

### 2.2 Adran Plant a Theuluoedd

Yr ystadegau diweddaraf yn cadarnhau y bu cynnydd o 15% yn y nifer o blant mewn gofal ers 2018/19. Yn dilyn o hyn, lefel gorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd yn dwysáu ymhellach eleni i £2.9 miliwn, gyda rhagolygon o dros £2.5 miliwn o orwariant yn y maes lleoliadau, gyda chyfran sylweddol o'r gorwariant ar leoliadau all-sirol. Mae tasglu Cyllideb Plant eisioes wedi ei sefydlu i roi sylw i faterion ariannol dyrys y maes.

### 2.3 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Problemau gorwariant yn y maes casglu a gwaredu gwastraff yn parhau eleni, costau trosiannol cyn symud i drefniadau newydd wedi arwain at orwariant uwch eleni.

## **2.4 Amgylchedd**

Cyfuniad o ragori ar incwm, tanwariant ar wasnaethau a chyflenwadau a chyflawni arbedion ymlaen llaw yn dueddiad ar draws yr adran. Mae'r adran yn awyddus i'r Cabinet ganiatáu iddynt neilltuo (£220k) o'r tanwariant tuag at gostau anochel sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor, yn dilyn adolygiad barnwrol diweddar yn ymwneud â Ffordd fynedfa Llanbedr.

## **2.5 Corfforaethol**

Rhagolygon ffatriol o gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth Cyngor, ond y parhad yn y tueddiad i ôl-ddyddio trosglwyddiadau o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig yn lleihau'r incwm ar Premiwm Treth Cyngor. Niferoedd sydd yn hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol, sydd yn gyson â'r tueddiad ar hyd Cynghorau'r Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol sydd yn cynnwys costau cyfalaf, cynnal a chadw corfforaethol, dychweliadau uwch ar dderbyniad llogau, bidiau yn cael eu dychwelyd ac arbedion yn cael eu cyflawni ymlaen llaw.

Argymhellir trosglwyddo'r tanwariant cyffredinol ar Gorfforaethol i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i leddfu'r risg gorwariant adrannau'r Cyngor yn 2019/20, gyda'r tanwariant costau cyfalaf i'w neilltuo i gyllido'r cynllun rheoli asedau a thanwariant cynnal a chadw corfforaethol i gronfa benodol i'r pwrpas.

## **3. Cyffredinol**

Mae'r adolygiad ddiwedd Awst o'r cyllidebau yn dangos darlun cymysg, gyda rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor. Mae'r pwysau sydd ar adrannau yn amlwg eleni, gyda'r adrannau yn cael trafferthion dygymod gyda'r galw ychwanegol yma. Argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2020.

## **4. Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 21 Ionawr 2020 ar sefyllfa diwedd Tachwedd 2019.

## **Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

## **Barn y swyddogion statudol**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

## **Atodiadau**

Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

---

**Cyllideb Refeniw 2019/20 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran**

	Adolygiad Diwedd Awst				Sefyllfa Terfynol 2018/19  £ '000
	Cyllideb Arfaethedig 2019/20  £'000	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20  £ '000	Addasiadau a Argymhellir  £'000	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2019/20  £ '000	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	52,877	1,678	0	1,678	15
Plant a Theuluoedd	14,391	2,909	0	2,909	100
Addysg	89,819	87	0	87	100
Economi a Chymuned	5,125	(7)	0	(7)	28
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	25,736	733	0	733	100
Amgylchedd	7,283	(299)	220	(79)	(100)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	65	42	0	42	(59)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,786	(117)	0	(117)	(76)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,440	(61)	0	(61)	(59)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,469	(100)	0	(100)	(61)
Cyllidebau Corfforaethol <i>(Gwahaniaethau yn unig)</i>	*	(2,867)	2,867	0	0
<b>Cyfansymiau (net)</b>	<b>210,991</b>	<b>1,998</b>	<b>3,087</b>	<b>5,085</b>	<b>(12)</b>

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	<b>Cyllideb Arfaethedig 2019/20</b>	<b>Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	<b>Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19</b>
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Gwasanaethau Oedolion</u></b>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	13,191	13,836	645	0	645	(540)
Gofal Cartref	6,831	6,370	(461)	0	(461)	(310)
Eraill	455	1,360	905	0	905	81
	20,477	21,566	1,089	0	1,089	(769)
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,350	2,274	(76)	0	(76)	(217)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	18,190	18,498	308	0	308	(241)
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	3,465	3,500	35	0	35	(30)
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	2,989	3,013	24	0	24	2
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u></b>	<b>47,471</b>	<b>48,851</b>	<b>1,380</b>	<b>0</b>	<b>1,380</b>	<b>(1,255)</b>
<b><u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u></b>						
Gofal Preswyl	104	45	(59)	0	(59)	171
Gofal Dydd	30	344	314	0	314	154
Gofal Cymunedol	0	375	375	0	375	564
Eraill	0	32	32	0	32	62
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u></b>	<b>134</b>	<b>796</b>	<b>662</b>	<b>0</b>	<b>662</b>	<b>951</b>



<b>CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST</b>						
<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Gwasanaethau Eraill</u></b>						
Gwasanaethau Tai	1,898	1,974	76	0	76	89
Gwasanaethau Canolog Adrannol ( <i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i> )	3,374	3,583	209	0	209	230
Defnydd o gronfa benodol	0	(649)	(649)	0	(649)	0
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u></b>	<b>5,272</b>	<b>4,908</b>	<b>(364)</b>	<b>0</b>	<b>(364)</b>	<b>319</b>
<b><u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u></b>	<b>52,877</b>	<b>54,555</b>	<b>1,678</b>	<b>0</b>	<b>1,678</b>	<b>15</b>

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - niferoedd mewn gofal preswyl a nyrsio ar ei fyny, gyda 28 achos newydd yn 2018/19 a 21 achos pellach eleni. Methiant i wireddu gwerth £669k o arbedion o fewn y pennawd 'Eraill' a gorwariant o £425k ar Lety Cefnogol, gyda chostau sefydlu cynllun Hafod y Gest yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant. Lleihad yn y galw am becynnau gofal cartref yn parhau unwaith eto eleni.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref yn parhau.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - effaith y galw cynyddol ar lety cefnogol a gwasanaethau dydd yn cael ei leihau gan danwariant ar breswyl a nyrsio.

**Gwasanaethau Darparu** - darparu oriau uwchlaw lefel y gyllideb yn y maes Gofal Cymunedol ynghyd â chostau uwch na'r incwm sydd yn cael ei ad-ennill ac felly yn gorwario £375k. Gorwariant o £314k ar Ofal Dydd. Costau staffio ychwanegol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant gyda rhai o'r rhesymau yn cynnwys cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb.

**Gwasanaethau Tai** - pwysau cynyddol ar lety dros dro i'r digartref a llithriad mewn gwireddu cynlluniau arbedion, ond derbyniad incwm a grantiau yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - derbyniad incwm a swyddi gwag yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £277k o gynlluniau arbedion.

O ystyried y sefyllfa ariannol eleni, mae'n briodol bod defnydd o'r cyllid o £457k, sydd gyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniwyd yn 2017/18 ynghyd â £192k o gronfa tanwariant hanesyddol yr adran yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo i leddfu rhan o'r gorwariant.

Yn amlwg mae gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni, gan bod angen egluro manylder cymhleth yn y darlun yma yng ngofal Oedolion, mae'r Prif Weithredwr eisioes wedi galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn cael gwell dealltwriaeth a rhaglen glir i ymateb, fel sydd yn digwydd ym maes gofal Plant.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Plant a Theuluoedd</b>	<b>Cyllideb Arfaethedig 2019/20</b>	<b>Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	<b>Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19</b>
<b>Maes:-</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Rheolaeth Gwasanaeth	581	605	24	0	24	(20)
Gweithredol	2,210	2,288	78	0	78	311
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	1,628	3,246	1,618	0	1,618	1,117
Maethu Drwy Asiant	911	1,299	388	0	388	(43)
Maethu Mewnol	1,706	2,188	482	0	482	276
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,668	1,704	36	0	36	163
	5,913	8,437	2,524	0	2,524	1,513
Ôl-16	1,035	1,079	44	0	44	329
Arbenigol/Derwen	1,814	2,146	332	0	332	328
Cyfiawnder Ieuenctid	280	236	(44)	0	(44)	(44)
Blynyddoedd Cynnar	144	94	(50)	0	(50)	(37)
Ieuenctid	851	749	(102)	0	(102)	(160)
Eraill	1,563	1,666	103	0	103	(24)
Derbyniad Grant 2018/19						(552)
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19						(1,544)
<b>Cyfanswm Plant a Theuluoedd</b>	<b>14,391</b>	<b>17,300</b>	<b>2,909</b>	<b>0</b>	<b>2,909</b>	<b>100</b>

**Plant a Theuluoedd**

**Gweithredol** - costau staff uwchlaw lefel y gyllideb ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau drytach, yn parhau i orwario er fod y maes wedi derbyn adnodd ychwanegol o £100k ar gyfer 2019/20 ymlaen.

**Lleoliadau** - y gorwariant yn deillio o 4 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, ynghyd ag effaith flwyddyn lawn 8 achos a ddechreuodd yn ystod 2018/19. Yn maethu drwy asiant, 5 achos newydd eleni ac effaith blwyddyn lawn 4 achos a gychwynwyd yn 2018/19. Cynnydd hefyd yn y niferoedd lleoliadau maethu mewnol. Yn dilyn adolygiad o'r ymrwymadau all-sirol, daeth yn amlwg y bu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig ac yn gydamserol, gwelwyd hefyd gwtogiad yng nghyfraniadau lechyd. Ymhellach i hyn, gwerth £370k o arbedion o fewn Lleoliadau sydd eto i'w gwireddu.

**Arbenigol/Derwen** – gorwariant o £332k sydd yn gyson gyda sefyllfa 2018/19, yn bennaf ar gynlluniau cefnogol yn dilyn cynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol.

**leuenctid** – tanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth leuenctid yn ddiweddar.

**Blynyddoedd Cynnar** – derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yn gyfrifol am y tanwariant.

**Eraill** - gorwariant ar y gwasanaeth tu allan i oriau, ffioedd proffesiynol, adolygiadau statudol a gofyn uwch ar yr ymrwymiad i wasanaeth adfocatiaeth Gogledd Cymru.

O ystyried lefel gorwariant yr adran sydd yn gyson gyda thueddiad 2018/19, mae Tasglu Cyllideb Plant, wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i roi sylw i faterion ariannol dyrys yr adran.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Addysg</b>	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	74,738	74,738	0	0	0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(305)	(549)	(244)	0	(244)	(315)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	4,820	5,008	188	0	188	365
Gwasanaeth Atodol	413	660	247	0	247	43
Eraill	3,552	3,234	(318)	0	(318)	(120)
	8,785	8,902	117	0	117	288
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,267	2,267	0	0	0	23
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	4,334	4,548	214	0	214	120
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19						(16)
<b>Cyfanswm Addysg</b>	<b>89,819</b>	<b>89,906</b>	<b>87</b>	<b>0</b>	<b>87</b>	<b>100</b>

**Addysg**

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - arbedion ymlaen llaw, trosiant staff a defnydd o grantiau yn gyfrifol am y sefyllfa ffafriol.

**Cludiant** - yn dilyn y gorwariant ar y maes yma dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd £400k o gyllid ychwanegol ar gyfer 2019/20. Serch hyn, mae'r gorwariant yn parhau, gyda'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu £188k, gyda £39k ar Fysus Ysgol, £46k diffyg incwm ar Gludiant Ôl-16 a thaflunir gorwariant o £103k ar Gludiant Tacsis Ysgolion.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant. Datrysiad rhannol oedd y £400k a ddyrannwyd eleni gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - diffyg incwm am yr elfen gofal o'r cynllun brecwast ac ar brydau ysgol ynghyd â gorwariant ar faterion staffio a salwch yn Arlwyath, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol gan gynnwys ar y gyllideb integreiddio.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - Y gorwariant sydd yn ymwneud ag amgylchiadau mewn un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am £179k o'r gorwariant, gyda gweddill y gorwariant un-tro yn deillio o gyfnod trosiannol Unedau Cyn Ysgol Addysg Blynyddoedd Cynnar ac Addysg heblaw mewn Ysgol.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Economi a Chymuned</b>	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	352	352	0	0	0	29
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	390	361	(29)	0	(29)	(31)
Morwrol a Pharciau Gwledig	75	61	(14)	0	(14)	14
Cytundebau Hamdden	1,430	1,463	33	0	33	340
Rhaglenni Chwaraeon	105	80	(25)	0	(25)	(77)
Rhaglenni Datblygu Economiadd	49	28	(21)	0	(21)	(57)
Marchnata a Digwyddiadau	272	272	0	0	0	(35)
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,593	1,582	(11)	0	(11)	(45)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	859	919	60	0	60	47
Addasiad Cau Cyrifon 2018/19						(157)
<b>Cyfanswm Economi a Chymuned</b>	<b>5,125</b>	<b>5,118</b>	<b>(7)</b>	<b>0</b>	<b>(7)</b>	<b>28</b>

## Economi a Chymuned

**Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau** - swyddi gwag ac arbedion wedi eu gwireddu yn fuan yn gyfrifol am y tanwariant a ragwelir.

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - diffyg incwm a gorwariant staffio tymhorol gan y Traethau yn cael ei ddileu gan y Parciau Gwledig a Hafan, Pwllheli. Y ffigyrau diweddaraf yn awgrymu sefyllfa gytbwys gan yr Harbyrau, sydd wedi bod yn broblemus dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn i'w targed incwm gael ei leihau eleni.

**Cytundebau Hamdden** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth Hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, rhagwelir gorwariant o £33k ar gostau rhedeg y canolfannau hamdden.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - Problemau yn parhau yn Storiell gyda rhagolygon o ddiffyg o £70k, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staff a diffyg yn yr incwm. Tanwariant ar y Celfyddydau yn cynorthwyo rhywfaint ar y sefyllfa ariannol.



**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)</b>	<b>Cyllideb Arfaethedig 2019/20</b>	<b>Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	<b>Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19</b>
<b>Maes:-</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	9,950	9,944	(6)	0	(6)	94
Gwasanaethau Peirianeg	384	438	54	0	54	(5)
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	11,345	12,066	721	0	721	503
Eraill	4,057	4,021	(36)	0	(36)	26
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19						(518)
<b>Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>25,736</b>	<b>26,469</b>	<b>733</b>	<b>0</b>	<b>733</b>	<b>100</b>

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Peirianeg** - oediad mewn gwireddu cynllun arbedion ynghyd â diffyg incwm, ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiaid.

**Gwastraff** - cynnydd yn y tueddiad gorwariant a welwyd yn 2018/19 yn y maes Gwastraff i £721k. Rhagolygon gorwariant o £211k ar y costau trosiannol ymdrin a chludo gwastraff drwy'r cyfleuster rhanbarthol 'Troi Gwastraff yn Ynni' sydd wedi ei leoli yn Nglannau Dyfrdwy.

Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd bellach wedi dod i rym yn Nwyfor, gyda Arfon i ddilyn yn Nhachwedd 2019, costau trosiannol cysylltiedig â chostau salwch yn gyfrifol am £162k o'r gorwariant.

Cynnydd mewn costau gweithredol a thrafnidiaeth, diffyg grant ac yn yr incwm ar wastraff, deunyddiau ailgylchu ac o baneli solar.

Er fod rhai camau ar yr ochr Gwastraff eisoes wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad eleni.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - er mai tanwariant o (£36k) a adroddir, darlun cymysg ar wahanol elfennau o'r gwasanaeth gyda rhai gwasanaethau, megis Cyfleusterau Cyhoeddus a Thiroedd Agored, yn gorwario ond yn cael ei leddfu gan danwariant mewn meysydd eraill, sef Gweinyddol, Gwasanaethau Profedigaethau a Gwastraff Masnachol.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Amgylchedd</b>	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	437	379	(58)	0	(58)	(50)
Gwasanaeth Cynllunio	402	547	145	0	145	(163)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	637	580	(57)	0	(57)	(256)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,681)	(1,902)	(221)	0	(221)	(9)
Cludiant Integredig	1,567	1,566	(1)	0	(1)	91
	523	244	(279)	0	(279)	(174)
Cefn Gwlad a Mynediad	724	736	12	0	12	10
Gwarchod y Cyhoedd	1,677	1,620	(57)	0	(57)	(80)
Eiddo, Gofalu, Arlwygo a Glanhau	3,520	3,458	(62)	0	(62)	(35)
Addasiad Adolygiad Diwedd Awst 2019				220	220	0
Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19						392
<b>Cyfanswm Amgylchedd</b>	<b>7,283</b>	<b>6,984</b>	<b>(299)</b>	<b>220</b>	<b>(79)</b>	<b>(100)</b>

**Amgylchedd**

**Rheolaeth** - tanwariant cyffredinol ac arbedion ymlaen llaw yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio** - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg yn yr incwm yn y maes Rheolaeth Datblygu yn parhau unwaith eto eleni, ond yn cael ei leihau gan danwariant ar wasanaethau, cyflenwadau a chludiant.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - gorgyflawni incwm yn y maes Traffig a Threfniadau Statudol sydd yn rhan o gynlluniau arbedion blynyddoedd nesaf yr adran. Rhagolygon ffafriol o ran yr incwm ynghyd â llai o wariant ar Barcio a Gorfodaeth.

**Cludiant Integredig** - tanwariant un-tro ar gostau staff a rhagori ar incwm yn lleihau effaith y costau ychwanegol ar gytundebau bysus. Yr adran hefyd yn gwneud defnydd o gronfa a neilltuwyd i'r pwrpas nôl tuag at y costau cynyddol. Mae'r adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac wedi comisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth.

**Gwarchod y Cyhoedd** - y gwasanaeth mewn cyfnod o drawsnewid ac felly yn gorwario ar gostau staffio sydd yn cael ei ddileu drwy ragori ar incwm yn y maes Trwyddedu, Tacsis a Difa Pla a drwy wariant is ar ddeunyddiau samplu dŵr a gwasanaethau a chyflenwadau.

**Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau** - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant.

Yn dilyn adolygiad barnwrol diweddar o gynllun cyfalaf yn ymwneud â Ffordd fynedfa Llanbedr, o ganlyniad i resymau tu hwnt i reolaeth y Cyngor rhagwelir ymrwymiad o £220k. Yn yr amgylchiadau **argymhellir** fod y Cabinet yn caniatáu i'r Adran Amgylchedd neilltuo (£220k) o danwariant yr Adran i gronfa benodol i'r pwrpas tuag at y costau perthnasol.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST</b>						
<b>Adran Ymgynghoriaeth</b>	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(637)	(620)	17	0	17	(62)
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	37	37	0	0	0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	571	572	1	0	1	(16)
Rheolaeth Adeiladu	94	118	24	0	24	19
<b>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</b>	<b>65</b>	<b>107</b>	<b>42</b>	<b>0</b>	<b>42</b>	<b>(59)</b>

### Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu diffyg incwm o £17k, ond y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith ac felly denu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru

**Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)** - rhagolygon diffyg incwm yn ystod y cyfnod o sefydlu'r uned newydd yma yn cael ei leddfu gan danwariant ar gostau staff.

**Rheolaeth Adeiladu** - diffyg incwm a gorwariant ar gostau trafndiaeth yn gyfrifol am y gorwariant a ragwelir.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST</b>						
<b>Adrannau Canolog</b>	Cyllideb Arfaethedig 2019/20	Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,786	1,669	(117)	0	(117)	(76)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	6,440	6,379	(61)	0	(61)	(59)
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,469	7,369	(100)	0	(100)	(61)
<b>Cyfanswm Adrannau Canolog</b>	<b>15,695</b>	<b>15,417</b>	<b>(278)</b>	<b>0</b>	<b>(278)</b>	<b>(196)</b>

### Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£117k), o ganlyniad i swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn dod yn wag am ran o'r flwyddyn ynghyd â derbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro ar drosiant staff, secondiadau, a derbyniad incwm a grantiau ychwanegol. Incwm ychwanegol o wahanol ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru am y maes gweinyddu rhyddhad trethi annomestig a grant ychwanegol cyfnod trosiannol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn y maes Budd-daliadau. Ymhellach, mae'r adran wedi llwyddo i gyflawni arbedion ymlaen llaw eleni ac wedi eu dargyfeirio i bwrpas Corfforaethol.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - y tanwariant yn bennaf ar dderbyniad incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb mewn nifer o feysydd ar draws yr adran, gan gynnwys Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol, Cyfieithu, Cofrestru a Democratiaeth. Swyddi gwag hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol, mewn paratoad ar gyfer arbedion y blynyddoedd nesaf, gan nad oes galwad ar yr arbedion eleni mae'r adran eisoes wedi trosglwyddo rhan o'i arbedion ymlaen llaw i bwrpas Corfforaethol.

**CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)</b>	<b>Cyllideb Arfaethedig 2019/20</b>	<b>Amcan Sefyllfa Terfynol 2019/20</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2019/20</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2019/20</b>	<b>Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2018/19</b>
<b>Maes:-</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Treth Cyngor	*	*	(392)	392	0	(24)
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(201)	201	0	(265)
Derbyniad Llog Net	*	*	(226)	226	0	(139)
Costau Cyfalaf	*	*	(240)	240	0	0
Cynnal a Chadw Corfforaethol	*	*	(995)	995	0	0
Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau	*	*	(423)	423	0	(937)
Arbedion a Gyflawnwyd Ymlaen Llaw	*	*	(373)	373	0	0
Eraill	*	*	(17)	17	0	(651)
Addasiad Cau Cyrifon 2018/19						2,016
<b>Cyfanswm Corfforaethol</b>	<b>*</b>	<b>*</b>	<b>(2,867)</b>	<b>2,867</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

**Corfforaethol**

**Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor** - Sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol o (£392k) ar Dreth Cyngor. Adroddir ar sefyllfa niwtral o ran Premiwm Treth Cyngor, gyda Swyddfa'r Prisiwr eisoes wedi caniatáu trosglwyddo 187 eiddo o'r rhestr Treth Cyngor i Drethi Annomestig hyd at ddiwedd Awst (453 yn 2018/19, 282 yn 2017/18, a 199 yn 2016/17). Rydym yn aros i glywed gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Prisiwr am ymgyrch Gwynedd i atal perchnogion ail gartrefi rhag osgoi'r dreth.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - rhagwelir tanwariant o (£201k) gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth Cyngor (budd-daliadau) yn gyffredinol ar ei lefel isaf am y bedwaredd blynedd yn olynol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Yng Ngwynedd gwelwyd lleihad o bron i 10% dros y cyfnod.

**Derbyniad Llog Net** - newidiadau diweddar yn y maes rheolaeth trysorlys yn galluogi Cynghorau Cymru i fuddsoddi mewn eiddo buddsoddi sydd wedi arwain at ddychweliadau uwch.

**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol am hanner y flwyddyn eleni sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Yn dilyn sefydlu Cynllun Rheoli Asedau 2019/20 ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i'w ddefnyddio i gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf.

**Cynnal a Chadw Corfforaethol** - derbyniad grantiau ychwanegol yn gyfrifol am danwariant ar y rhaglen cynnal a chadw eleni ac felly awgrymir y dylid trosglwyddo'r arian i gronfa benodol i ariannu'r gwariant i'r dyfodol.

**Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau** - dychwelyd bid o (£193k) Integreiddio Addysg na fydd ei angen yn 2019/20, ynghyd â materion eraill nad yw'r galw bellach mor ddwys o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

**Arbedion a Gyflawnwyd Ymlaen Llaw** - arbedion wedi eu gwireddu yn fuan eleni.

**Argymhellir** fod (£240k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, (£995k) ar gynnal a chadw corfforaethol yn cael ei drosglwyddo i gronfa cynnal a chadw, gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,632k) yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i leddfu'r risg gorwariant adrannau'r Cyngor yn 2019/20.

# Eitem 9

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD:	<b>17 HYDREF 2019</b>
TEITL:	<b>RHAGLEN GYFALAF 2019/20 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2019</b>
PWRPAS:	<b>Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf</b>
GWEITHREDIAD:	<b>Derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet</b>
SWYDDOG CYSWLLT:	<b>FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID</b>
AELOD CABINET:	<b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID</b>

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - Adolygiad Diwedd Awst 2019) i'r Cabinet ar 15 Hydref 2019 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

## **Atodiadau:**

Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - Adolygiad Diwedd Awst 2019 (Cabinet 15/10/2019)



**ADRODDIAD I'R CABINET**  
15 HYDREF 2019

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2019/20 –  
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2019)

**Swyddog Cyswilt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £8,304,000 defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau o 2018/19
  - £5,936,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
  - £3,411,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
  - £82,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
  - £37,000 o leihad mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
  - Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
  - £154,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill
- 

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2019/20. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 7:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £87.794m am y 3 blynedd 2019/20 – 2021/22.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £17.850m ers y gyllideb agoriadol, gyda £8.304m o'r cynnydd oherwydd lithriadau o 2018/19 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r adolygiad diwedd blwyddyn ar 21 Mai 2019).

Rhan 6: Manyllder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2019/20 i 2020/21
- Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2019/20

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £39.7m yn 2019/20 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £17.2m (43%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae £7.9m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2019/20 i 2020/21, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i 2021/22

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYFANSWM	CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2019/20	2020/21	2021/22					
	£'000	£'000	£'000	£'000				
Addysg	10,967	6,184	1,895	19,046	5,283	84	5,199	
Amgylchedd	5,203	3,991	406	9,600	8,913	4,301	4,612	
Cefnogaeth Gorfforaethol	106	13	-	119	106	106	-	
Cyllid	713	481	1,237	2,431	2,356	211	2,145	
Economi a Chymuned	1,955	880	330	3,165	1,338	73	1,265	
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai	4,611	6,250	4,300	15,161	5,277	701	4,576	
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall	1,755	2,846	2,400	7,001	5,357	93	5,264	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,344	1,113	250	2,707	356	-	356	
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	11,287	4,548	2,257	18,092	5,047	591	4,456	
Ymgynghoriaeth	685	3,539	3,410	7,634	6,684	-	6,684	
Corfforaethol	1,123	1,030	685	2,838	(22,867)	2,144	(25,011)	
<b>CYFANSWM</b>	<b>39,749</b>	<b>30,875</b>	<b>17,170</b>	<b>87,794</b>	<b>17,850</b>	<b>8,304</b>	<b>9,546</b>	

#### 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £17.850m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2019/20	2020/21	2021/22	CYFANSWM			
	£'000	£'000	£'000	£'000			
Benthyca gyda chefnogaeth	7,995	7,535	6,610	22,140	-	-	-
Benthyca Arall	2,234	3,668	2,567	8,469	6,289	353	5,936
Grantiau a Chyfraniadau	17,177	4,235	-	21,412	4,753	1,342	3,411
Derbyniadau Cyfalaf	431	750	-	1,181	333	251	82
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	1,268	-	-	1,268	(20)	17	(37)
Cronfa Cyfalaf	1,442	842	3,801	6,085	918	918	-
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	9,202	13,845	4,192	27,239	5,577	5,423	154
<b>CYFANSWM</b>	<b>39,749</b>	<b>30,875</b>	<b>17,170</b>	<b>87,794</b>	<b>17,850</b>	<b>8,304</b>	<b>9,546</b>

#### 5. Benthyca Arall Ychwanegol

Mae £5,353k o'r swm ychwanegol gyferbyn â'r pennawd Benthyca Arall yn y tabl yn rhan 4 uchod yn deillio o'r Cynlluniau Atal Llifogydd. Gyda'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol (MBLIL) mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 75% o gost y cynllun trwy ddiogolledu costau benthyca'r Cyngor dros gyfnod o 25 mlynedd yn y Grant Cefnogaeth Refeniw (GCR) blyneddol. Mae'r 25% sydd i'w ariannu gan y Cyngor eisoes wedi ei glustnodi fel rhan o'r Cynllun Asedau.

#### 6. Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £3,792k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £387k ar gynllun ddaeth i fewn o dan yr amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £3,411k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £1,538k Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys partneriaethau bysiau cynaliadwy a hybiau trafndiaeth
- £1,327k Grant Ysgolion Ganrif 21 – cynlluniau Cyflwr ac Addaswydd a Hwb Cymunedol
- £527k(net) Grant Cronfa Gofal Canolraddol addasu sefydliadau oedolion
- £165k Grant Galluogi maes tai gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol

- £95k Grant pendodol gan Lywodraeth Cymru tuag at Safle Trosglwyddo Gwastraff Caernarfon fel rhan o'r cynllun rhanbarthol
- £73k Grant Dechrau'n Deg Canolfan Plas Ffrancon a chyfraniad Cronfa Gofal Canolraddol tuag at Canolfan Maesgeirchen
- £67k Grant Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwedd dau o'r cynllun Llwybr yr Arfordir

## 7. Argymhellion

### Gofynnir i'r Cabinet:

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 i 2021/22, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

## 8. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynnyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2019/20 – 2021/22.

## 9. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 10. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**  
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**

Atodiadau A, B ac C

-----

**Prif Newidiadau Fesul Ffynhonnell Ariannu**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers y gyllideb wreiddiol:

	2019/20	2020/21- 2021/22
	£'000	£'000
<b>Grantiau a Chyfraniadau</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant Ysgolion Ganrif 21 – cynlluniau Cyflwr ac Addasrwydd a Hwb Cymunedol (<i>Adran Addysg</i>).</li> </ul>	1,327	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant i ariannu cynlluniau Dechrau'n Deg yng Nghanolfan Plas Ffrancon a chyfraniad o Gronfa Gofal Canolraddol tuag at Canolfan Maesgeirchen (<i>Adran Plant a Theuluoedd</i>).</li> </ul>	73	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau i ddarparu gwelyau dementia ac arbenigol yn ogystal â hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).</li> </ul>	952	(425)
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant penodol gan Lywodraeth Cymru i uwchraddio Safle Trosglwyddo Gwastraff Caernarfon ar gyfer gwastraff sy'n rhan o'r cynllun rhanbarthol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).</li> </ul>	95	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys partneriaethau bysiau cynaliadwy a hybiau trafndiaeth (<i>Adran Amgylchedd</i>).</li> </ul>	1,538	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweddau o gynllun Llwybr yr Arfordir (<i>Adran Amgylchedd</i>).</li> </ul>	67	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Grant Galluogi maes tai gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol (<i>Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).</li> </ul>	165	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun Atal Llifogydd Llanberis – costau is na'r rhagamcan. (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>).</li> </ul>	(387)	
<b>Benthyciadau Arall</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Menter Benthycia Llywodraeth Leol yn cyfrannu tuag at ariannu nifer o gynlluniau Atal Llifogydd (<i>Adran Ymgynghoriaeth</i>).</li> </ul>	173	5,180
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cerbydau Ailgylchu a Bwrdeistrefol (<i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i>).</li> </ul>	585	

<b>Derbyniadau Cyfalaf</b>		
• Cerbydau maes Oedolion ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> ).	22	
• Uwchraddio Depo Glan y Don ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).	54	
<b>Refeniw Adrannol</b>		
• Cyfraniad tuag at system technoleg gwybodaeth i'r maes Cynllunio ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	62	
• Cynllun Atal Llifogydd Llanberis – costau is na'r rhagamcan. ( <i>Adran Ymgynghoriaeth</i> ).	(105)	
<b>Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill</b>		
• Gwaith uwchraddio depos Priffyrdd a Bwrdeistrefol ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).	175	
• Addasiad i'r rhagamcan Adnewyddu Cerbydau nifer o unedau o fewn Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn ogystal ag adrannau eraill ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac eraill</i> ).	(241)	
• Cynlluniau yn y maes Rheoli Gwastraff e.e. sgiplau, cartgylchu ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).	114	10
• Peiriannau Talu ac Arddangos Meysydd Parcio ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	44	
• Cyfraniad tuag at system technoleg gwybodaeth i'r maes Cynllunio ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	50	

-----

**Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2019/20 £'000	2020/21 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) ( <i>Adran Addysg</i> )	(1,318)	1,318
Cynlluniau sefydliadau Oedolion ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )	(975)	975
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )	(250)	250
Cynllun i Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiw ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )	(171)	171
Cynlluniau Atal Llifogydd ( <i>Adran Ymgynghoriaeth</i> )	(181)	181
Adnewyddu Cerbydau ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> )	142	(142)
Cynlluniau Trafnidiaeth ( <i>Adran Amgylchedd</i> )	(379)	379
Cynlluniau Addasiadau, Cynnal a Chadw ayyb Eiddo'r Cyngor ( <i>Uned Eiddo, Adran Amgylchedd</i> )	(2,176)	2,176
Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor ( <i>Uned Eiddo, Adran Amgylchedd</i> )	(1,099)	1,099
Cynlluniau Strategaeth Tai ( <i>Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )	(1,450)	1,450

**Noder:**

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

-----



## Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2019/20

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2019/20	GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2019
	£'000	£'000
Addysg	10,967	2,270
Amgylchedd	5,203	384
Cefnogaeth Gorfforaethol	106	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	713	9
Economi a Chymuned	1,955	81
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai	4,611	1,786
Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall	1,755	106
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,344	161
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	11,287	2,563
Ymgynghoriaeth	685	250
Corfforaethol	1,123	-
<b>CYFANSWM</b>	<b>39,749</b>	<b>7,610</b>

**Noder:**

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (19%) yn is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2018/19 yn 21%).